

Rhif: WG24170



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Treth Gwarediadau Tirlenwi

Dyddiad cyhoeddi: 24 Chwefror 2015
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 19 Mai 2015



Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn ar gynigion ynglŷn â Threth Gwarediadau Tirlenwi.

Sut i ymateb

Dylid cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn fel eu bod yn cyrraedd erbyn **19 Mai 2015** fan hwyraf. Gellir cyflwyno ymatebion: yn electronig drwy'r ffurflen ar-lein: <http://wales.gov.uk/consultations/finance/landfill-disposals-tax/?lang=cy>

Drwy eu hanfon ar e-bost at: FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk (rhowch 'Treth Gwarediadau Tirlenwi' yn y blwch testun).

Neu gallwch eu postio at:
Yr Is-adran Polisi a Deddfwriaeth Trethi
2il Lawr – Dwyrain
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellwch ofyn am fersiynau o'r ddogfen hon mewn fformat hygyrch, gan gynnwys MS Word, print bras a Braille, neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Mae'r ymgynghoriad ar Dreth Trafodiadau Tir i'w weld ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Mae'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig a'r crynodeb o'r ymatebion i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru yn: www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau

Gellir cael gafael ar fanylion adroddiad cyntaf y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), ymateb Llywodraeth y DU i'r adroddiad cyntaf a Bil Cymru drwy fynd i wefan Llywodraeth Cymru yn: <http://cymru.gov.uk/funding/financereform/?lang=cy>

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:
Yr Is-adran Polisi a Deddfwriaeth Trethi
2il Lawr – Dwyrain
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: FinancialReformMailbox@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Rhagair y Gweinidog

	Tudalen
Pennod 1: Cyflwyniad a Chefnidir y Polisi	4
Pennod 2: Cyfraddau'r Dreth a Gwarediadau Trethadwy	15
Pennod 3: Cydymffurfio a Gorfodi	27
Pennod 4: Gweinyddu'r Dreth	35
Pennod 5: Lles y Gymuned	41

Atodiad 1: Crynodeb o Orchymyn Treth Dirlenwi 2011 (Deunyddiau Cymwys) 2011

Atodiad 2: Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, gan gynnwys crynodeb o'r cwestiynau ymgynghori

Atodiad 3: Geirfa

Atodiad 4: Asesiad Effaith Rheoleiddiol Cychwynnol



Rhagair y Gweinidog

Bydd pasio Deddf Cymru 2014 yn golygu y bydd y ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus Cymru'n cael eu hariannu'n newid dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Un o'r datblygiadau pwysicaf yw'r pwerau newydd a roddwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol ddatblygu ei drethi datganoledig ei hun, gan ddechrau drwy godi trethi yn lle'r Dreth Dirlenwi a Threth Dir y Dreth Stamp a godir ar hyn o bryd gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn golygu, am y tro cyntaf ers bron 800 mlynedd, ein bod yn gallu cynllunio a rhoi ar waith y trethi sy'n

gweddu i amgylchiadau penodol Cymru.

Bwriedir dechrau cyflwyno trethi Cymru ym mis Ebrill 2018, ac, yn y cyfamser, bydd angen gwneud llawer o waith paratoi. Rwyf wedi defnyddio pedair egwyddor trethu yn sail i holl waith cychwynnol Llywodraeth Cymru: Rwy'n awyddus i gyflwyno trethi sy'n deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n eu talu; sy'n syml, gyda rheolau clir sy'n sicrhau cyn bod costau cydymffurfio a gweinyddu cyn ised â phosibl; sy'n rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr; ac sy'n hybu twf a swyddi, a fydd yn eu tro'n help i drechu tlodi.

Mae a wnelo'r ymgynghoriad hwn â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a dyma'r olaf o'r tair a gyhoeddir gennyf i ofyn eich barn am y pwerau newydd. Mae'r dreth yn ddylanwad pwysig ar ymddygiad amgylcheddol. Mae'n annog rhagor o atal, aildefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff. Drwy ddatganoli'r dreth hon felly, bydd gennym arf ychwanegol yn gefn i bolisiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys mynd ar drywydd ein nod uchelgeisiol sef dim gwastraff.

Drwy'r ymgynghoriad hwn, rwyf yn awyddus i ganfod cyfleoedd i fynd i'r afael ag agweddau ar y dreth bresennol a all fod yn ddryslyd neu sy'n creu ansicrwydd, ac rwy'n dymuno ystyried a ellid defnyddio cyfran o referiwr'r dreth i wella lles cymunedau a sut y gellid gwneud hynny. Rwyf hefyd yn awyddus i foderneiddio gweinyddu'r dreth, gan ei galluogi i weithio'n fwy effeithlon, ac i ysgafnhau'r baich ar fyd busnes gymaint ag y bo modd. Serch hynny, nid wyf am gyflwyno newidiadau lle nad oes mo'u hangen. Yn wir, rwy'n sylweddoli y gallai fod yn well cadw'n gyson â Lloegr a'r Alban mewn rhai meysydd.

Un agwedd hanfodol ar waith datblygu'r dreth fydd cydymffurfio. Mae hyn yn golygu fy mod am sicrhau bod pawb sydd â gwastraff i'w waredu'n cydymffurfio'n llawn ac yn briodol â'r dreth. Bydd y sawl sy'n osgoi ac sy'n efadu talu'r dreth yn cael eu trin yn deg yng Nghymru ac yn cael eu herio'n gadarn, ni waeth am yr amgylchiadau – mae ceisio osgoi talu'n gwbl annerbyniol. Mae'r ymgynghoriad felly'n gofyn ichi ddweud sut y gallwn annog pobl i gydymffurfio, a pha gamau y dylwn eu cymryd er mwyn ymateb i ddiffyg cydymffurfio.

Bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithio ar amrywiaeth eang o fuddiannau - busnesau, rheoleiddwyr, cymunedau a'r Trydydd Sector. Rwy'n awyddus i ystyried yr amrywiaeth ehangaf o opsiynau drwy'r ymgynghoriad hwn, felly rwy'n pwysu arnoch i rannu'ch syniadau am sut y gallwn gynllunio'r dreth hon er mwyn iddi weithio'n dda i Gymru. Rwy'n edrych ymlaen at ddarllen eich cynigion.



Jane Hutt

Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Chwefror 2015

Pennod 1: Cyflwyniad a Chefndir y Polisi

Datganoli pwerau trethu

- 1.1 Ym mis Tachwedd 2010, cyhoeddodd y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (Comisiwn Silk), ei adroddiad cyntaf am drefniadau ariannol a chyfansoddiadol Cymru. Croesawodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad ac yna, cyflwynodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig becyn o bwerau trethu a benthyca i Gymru.
- 1.2 Mae Deddf Cymru 2014, a basiwyd gan y Senedd yn ddiweddar, yn pennu'r pwerau ariannol newydd hyn i Gymru gan gynnwys datganoli'r Dreth Dirlenwi, Treth Dir y Dreth Stamp ac elfen o'r Dreth Incwm, yn amodol ar refferendwm. Mae *Bil Cymru: Papur Gorchymyn Grymuso ac Atebolrwydd Ariannol* yn dweud mai bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig yw y bydd y Dreth Dirlenwi a Threth Dir y Dreth Stamp yn dod i ben yng Nghymru ym mis Ebrill 2018.
- 1.3 I baratoi ar gyfer hyn, yn yr hydref y llynedd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig¹ ac yn yr haf, mae'n bwriadu cyflwyno Bil Cynulliad sy'n rhestru ei chynigion. Bydd hwn yn cynnig fframwaith clir a chadarn ar gyfer llywodraethu trethi, gan ddechrau drwy sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru. Bydd yr Awdurdod yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r trethi sydd wedi'u datganoli i Gymru.
- 1.4 Rhaid cael rhywfaint o eglurdeb ynghylch y trethi y bwriedir eu casglu er mwyn deall ac, yn wir, er mwyn datblygu blaenoriaethau a phrosesau gweithredol y drefn a ddilynir wrth gasglu a rheoli trethi. Felly, pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn am farn pobl am ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi. Ochr yn ochr â hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori hefyd ynglŷn â chynigion i gyflwyno Treth Trafodiadau Tir yn lle Treth Dir y Dreth Stamp yng Nghymru.² Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriadau hyn yn llywio'r ffordd y datblygir polisiau a deddfwriaeth. Bydd hyn yn galluogi Llywodraeth nesaf Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar y trethi hyn yn fuan ar ôl yr etholiad nesaf (5 Mai 2016).

Ymgynghori ynglŷn â Threth Gwarediadau Tirlenwi

- 1.5 Mae Deddf Cymru 2014 yn cyfyngu cwrpas pwerau'r Cynulliad Cenedlaethol yn glir i ddeddfu ynghylch treth ar waredu gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru: rhaid i'r dreth hon felly ymwneud â'r dull hwn o reoli gwastraff.
- 1.6 Mae'r Dreth Dirlenwi yn gymhleth, ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r ffordd y mae'r gwahanol gyfraddau trethi ar draws ffiniau yn dibynnu ar ei gilydd.

¹ Mae'r ymgynghoriad a'r dadansoddiad o'r ymatebion i'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig i'w gweld drwy fynd at wefan Llywodraeth Cymru yma:

www.wales.gov.uk/consultations

² Bydd yr ymgynghoriad ynglŷn â Threth Trafodiadau Tir yn dod i ben ar 6 Mai 2015, ac mae gwybodaeth amdano ar gael drwy fynd at wefan Llywodraeth Cymru yma:

www.wales.gov.uk/consultations

Mae'n ymwybodol hefyd o'r heriau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio a gorfodi, a'r diffyg amwynder i gymunedau yn sgil safleoedd tirlenwi a gweithgareddau gwastraff anghyfreithlon.

- 1.7 Mae'r rhyngddibyniaethau hyn rhwng y gwahanol agweddau'n golygu y gallai newid un agwedd ar y dreth effeithio'n waeth na'r disgwyl ar rai meysydd na'i gilydd yn ogystal â gwella pethau mewn meysydd eraill; mae angen i Lywodraeth Cymru fod yn effro i'r rhain.
- 1.8 Rydym yn dechrau ystyried y materion hyn yn yr ymgynghoriad hwn ac yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynnol yn Atodiad 4. Byddem yn arbennig o falch o glywed eich barn am agweddau ymarferol yr opsiynau a gynigir ac unrhyw dystiolaeth y gallwch ei chynnig yn gefn i'ch ymateb.

Rheoli Gwastraff yng Nghymru

- 1.9 Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio datblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n arf ychwanegol yn gefn i'w pholisïau, yn enwedig ym maes gwastraff.
- 1.10 Mae tirwedd Reoleiddiol Ewrop wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno'r Dreth Dirlenwi yn 1996 ac mae'n ddylanwad mawr ar y ffordd y caiff gwastraff ei reoli yng Nghymru. Rhai o'r newidiadau nodedig oedd cyflwyno Cyfarwydddeb Tirlenwi'r Undeb Ewropeaidd yn 1999 a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar ymdrin â'r gwastraff a anfonid i safleoedd tirlenwi: roedd yn nodi'r gofynion ar gyfer rhag-drin gwastraff a'r deunyddiau sy'n cael mynd i'r safleoedd hyn. Roedd Penderfyniad Cyngor yr Undeb Ewropeaidd ynglŷn â Meini Prawf Derbyn Gwastraff yn 2002 hefyd yn rhestru'r safonau y mae'n rhaid i wastraff gydymffurfio â hwy er mwyn cael eu derbyn i wahanol fathau o safleoedd tirlenwi.
- 1.11 Mae *Strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff* Llywodraeth Cymru yn dweud sut y byddwn yn ymdrin â gwastraff yng Nghymru er budd yr amgylchedd, yr economi ac er lles y gymdeithas. Y nod yw defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd gynaliadwy drwy leihau gwastraff a rheoli unrhyw wastraff sy'n cael ei gynhyrchu gan sicrhau bod deunyddiau gwerthfawr yn cael eu cadw o fewn economi Cymru ac yn cael eu gwarchod er budd cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n gosod nodau i leihau gwastraff yn sylweddol, 27% o leiaf, (o linell sylfaen 2007) a chyfradd ailgylchu o 70% fan leiaf, gan anfon mor agos â phosibl at ddim gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025, a'i huchelgais yw sicrhau dim gwastraff (ailgylchu 100%) erbyn 2050.
- 1.12 Mae'r nodau hyn yn ategu *Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd* sy'n nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau'r allyriadau nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yng Nghymru. Roedd *Adolygiad Stern* o newid yn yr hinsawdd yn 2006 yn dangos mai safleoedd tirlenwi yw un o brif achosion yr allyriadau o wastraff sy'n achosi'r newid hwnnw. Wrth anfon bwyd a mathau eraill o wastraff pydradwy i safleoedd

tirlenwi, byddant yn cynhyrchu methan, nwy pwerus sy'n achosi newid yn yr hinsawdd.

- 1.13** Yn ystod hydref 2013, bu Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ynglŷn â Phapur Gwyn Bil yr Amgylchedd³. Ymhlith pethau eraill, roedd hwn yn rhestru camau i sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu defnyddio er y lles gorau a bod gwastraff yn gael ei ailgylchu. Er mwyn helpu i sicrhau bod y buddsoddi'n mynd ar drywydd atebion rheoli gwastraff cynaliadwy, roedd yn cynnwys cynigion penodol am wahanu a chasglu gwastraff ac yn gwahardd defnyddio rhai deunyddiau i greu ynni o wastraff a'u hanfon i safleoedd tirlenwi. Ar ôl i Lywodraeth Cymru ystyried yr ymatebion i'r Papur Gwyn, disgwylir y bydd Bil yn cael ei gyflwyno yng ngwanwyn 2015.
- 1.14** Yn 2014, lansiodd Llywodraeth Cymru gynllun *Twf Gwyrdd Cymru: Buddsoddi yn y Dyfodol*. Nod *Twf Gwyrdd Cymru* yw cynyddu a sbarduno prosiectau i sicrhau buddsoddi gwyrdd yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio'n bennaf, ymhlith pethau eraill, ar annog buddsoddi mewn effeithlonrwydd adnoddau, cynhyrchu ynni adnewyddadwy a phrosiectau rheoli gwastraff cynaliadwy. Dyrannwyd £5 miliwn o Gyllideb Llywodraeth Cymru yn 2015-16 i ddatblygu *Twf Gwyrdd Cymru*. Mae twf gwyrdd yn agwedd hollbwysig ar ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru.
- 1.15** Ers 15 mlynedd, cydnabyddir bod Cymru'n arwain y ffordd ym maes datblygu cynaliadwy, sydd wedi bod wrth wraidd polisïau Llywodraeth Cymru ers dechrau un datganoli. Datblygu cynaliadwy yw'r ffordd orau o'n helpu i gynllunio'n well ar gyfer y dyfodol, er mwyn inni fynd i'r afael â'r problemau mawr sy'n wynebu pobl a chymunedau ledled Cymru, megis newid yn yr hinsawdd, tloedi, swyddi a thwf a gwneud pethau'n fwy diogel i bobl.
- 1.16** Gweledigaeth tymor hir Llywodraeth Cymru erbyn 2050 yw mai Cymru fydd y lle gorau i fyw, dysgu, gweithio a thrafod busnes ynddo a hynny mewn amgylchedd sy'n cael ei barchu a'i fwynhau. Rydym am weld economi gref i fusnesau, pobl a chymunedau yng Nghymru. Rydym am gryfhau'r amgylchiadau a fydd yn galluogi busnesau i greu swyddi a thwf economaidd cynaliadwy. Mae'r ffordd hon o feddwl wrth wraidd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)⁴, sydd ar ei hynt yn awr drwy Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Bydd y ddeddfwriaeth hon yn help inni wireddu hyn drwy greu cyfraith sy'n cynnwys set o nodau clir, cyfannol ar gyfer llesiant yng Nghymru. Maent yn cynnig cydweledigaeth ar gyfer y Gymru yr ydym yn awyddus i'w gweld yn awr ac yn y dyfodol, gan sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

³ <http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?lang=cy>

⁴ <http://wales.gov.uk/legislation/programme/assemblybills/future-generations/?lang=cy>

Y Dreth Dirlenwi

1.17 Treth yn y Deyrnas Unedig ar waredu gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yw'r Dreth Dirlenwi. Mae'r safleoedd hyn yn cael eu trwyddedu o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol (oni fyddant wedi'u heithrio'n benodol).

1.18 Cyflwynwyd y Dreth Dirlenwi yn 1996 fel sbardun pwysig i ddylanwadu ar ymddygiad amgylcheddol:

'...to ensure that landfill costs reflect environmental impact thereby encouraging business and consumers, in a cost effective and non-regulatory manner, to produce less waste; to recover value from more of the waste that is produced; and to dispose of less waste in landfill sites'⁵.

1.19 Ers cyflwyno'r dreth, mae wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yng nghyfran y gwastraff sy'n cael ei hanfon i safleoedd tirlenwi ac at fwy o ailgylchu. Yng Nghymru gwelwyd gostyngiad o 52% yng nghyfanswm y tunelli o wastraff a anfonid i safleoedd tirlenwi rhwng 2001 a 2013⁶.

1.20 Ar hyn o bryd mae 28 o safleoedd tirlenwi a 23 o gwmnïau'n eu gweithredu yng Nghymru. Cyllid a Thollau EM sy'n gweinyddu'r Dreth Dirlenwi ar hyn o bryd ac mae'n cael ei chasglu gan weithredwyr y safleoedd tirlenwi. Mae cyfradd dreth is yn berthnasol i'r deunyddiau sydd wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011. Codir cyfradd dreth safonol am bob deunydd trethadwy arall sy'n cael ei waredu

1.21 Mae'r Dreth Dirlenwi hefyd yn darparu cronfa i gefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol yng nghyffiniau safle tirlenwi. Cynllun credyd treth yw'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi sy'n galluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gyfrannu cyfran o'r dreth maent yn atebol amdani i brosiectau cymwys.

Datblygiadau diweddar

1.22 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Cyllid a Thollau EM wedi ceisio egluro'n well sut y rhoddir y dreth hon ar waith. Mae hyn wedi cynnwys diweddaru'r canllawiau a chyflwyno deddfwriaeth ddiwygiedig: Gorchymyn y Dreth Dirlenwi (Gweithgareddau Rhagnodedig ar Safleoedd Tirlenwi) 2009 a Gorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011. Mae Cyllid Thollau EM wedi cyhoeddi hefyd ei fod yn bwriadu cyflwyno prawf Colli wrth Danio o fis Ebrill 2015 ymlaen. Pwrpas hyn fydd pennu'r gyfradd dreth sy'n berthnasol i *fân weddillion* (y darnau bychain o wastraff sydd ar ôl pan fydd y gwastraff wedi'i brosesu). Esbonnir sail y prawf Colli wrth Danio ym mhennod 2.

⁵ UK Waste Strategy (Adran yr Amgylchedd a'r Swyddfa Gymreig 1995: dyfynnwyd yn ECOTEC, 2001)

⁶ <http://naturalresourceswales.gov.uk/content/docs/pdfs/our-work/Policy-advice-and-guidance/87161/wales-waste-information-eng?lang=en>

- 1.23** Mae nifer o achosion cyfreithiol wedi bod ynghylch a yw rhywfaint o'r deunydd sy'n cael ei anfon i safle tirlenwi yn cael ei 'ddefnyddio' (yn hytrach na'i waredu⁷) ac felly na ddylid ei drin yn warediad trethadwy. Mae gwerth yr hawliadau sydd gerbron y llysoedd ar hyn o bryd yn golygu bod cyfran sylweddol o refeniw blynyddol y Dreth Dirlenwi o dan fygythiad. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio ffyrdd o gynllunio Treth Gwarediadau Tirlenwi sy'n rhoi sylw i'r materion y mae'r achosion hyn yn eu codi ac sy'n cynnig cymaint o eglurdeb â phosibl i'r trethdalwr yn ogystal ag i Awdurdod Cyllid Cymru.
- 1.24** Un o'r datblygiadau eraill yw bod Cyllid a Thollau EM wedi dechrau rhoi mwy o sylw i droseddau gwastraff, gan gynnwys mynd i'r afael â'r sawl sy'n efadu talu'r Dreth Dirlenwi. Yn 2014, rhoddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig £5m i Asiantaeth yr Amgylchedd (arian a fyddai fel arall wedi mynd i'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi) er mwyn sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol yn Lloegr. Mae Cyllid a Thollau EM hefyd wrthi'n adolygu gweinyddu'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi yng ngoleuni pryderon bod cyfran sylweddol o'r arian heb ei gwario.
- 1.25** Bydd y Dreth Dirlenwi'n cael ei datganoli i'r Alban o fis Ebrill 2015 ymlaen. Bydd Treth Dirlenwi'r Alban yn aros yr un fath fwy neu lai â'r Dreth Dirlenwi bresennol ond bydd rhai pethau'n newid o ran sut y caiff y dreth ei gweinyddu, gan gynnwys ehangu cwmplas y dreth (gan estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon) a'r ffordd y mae'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi'n gweithio. Mae Llywodraeth Cymru wedi edrych yn ofalus ar gynigion yr Alban a bydd yn dal i wneud hynny wrth iddynt gael eu rhoi ar waith. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ystyried y prif newidiadau sy'n cael eu rhoi ar waith yn yr Alban.

Refeniw'r Dreth Dirlenwi

- 1.26** Mae cyfraddau safonol y dreth wedi cynyddu dros gyfnod er mwyn cymell pobl i anfon llai o wastraff i safleoedd tirlenwi ac yn hytrach symud i gyfeiriad atal, aildefnyddio, ailgylchu, ac adennill. Mae'r gyfradd dreth safonol wedi codi o £7/y dunnell yn 1996-97 i £80/y dunnell yn 2014-15. Mae'r gyfradd dreth is wedi gostwng yn gyson mewn termau real ers cyflwyno'r dreth (nid yw wedi cyd-fynd â chwyddiant). £2/y dunnell oedd y gyfradd is pan gyflwynwyd y dreth a'r gyfradd ar hyn o bryd yw £2.50/y dunnell.
- 1.27** Yn Natganiad Cyllideb y Deyrnas Unedig yn 2014, cyhoeddwyd y byddai cyfraddau'r Dreth Dirlenwi yn y dyfodol yn aros yr un fath mewn termau real (ar sail cyfradd chwyddiant yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu) tan 2019/20 o leiaf. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi'n ddiweddar ei bod am bennu'r un cyfraddau treth â Chyllid a Thollau EM ar gyfer 2015-16.⁸

⁷ Er mwyn i warediad fod yn drethadwy rhaid gwaredu deunydd yn wastraff, ac mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio bod hyn yn digwydd pan fydd y sawl sy'n gwaredu'r gwastraff yn gwneud hynny gyda'r bwriad o waredu'r gwastraff.

⁸ <http://www.scotland.gov.uk/Publications/2014/10/2706/4>

- 1.28** Mae refeniw'r Dreth Dirlenwi yn y Deyrnas Unedig a'r amcangyfrifon ar gyfer Cymru dros y deng mlynedd diwethaf i'w gweld yn Nhabl 1. Yn ddiweddar, y refeniw yn y Deyrnas Unedig oedd tua £1.1 biliwn yn y Deyrnas Unedig ac oddeutu £50 miliwn yng Nghymru. Mae'r refeniw yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru wedi dilyn tuedd debyg yn ystod y degawd diwethaf, sef cynyddu'n gyflym tan 2010-11 ac yn aros yn gymharol sefydlog wedi hynny. Mae'r ffigurau ar gyfer y Deyrnas Unedig yn dangos y gwir refeniw a dderbyniwyd gan Gyllid a Thollau EM. Serch hynny, amcangyfrif yw'r ffigurau ar gyfer Cymru a baratowyd gan Gyllid a Thollau EM a'r rheini wedi'u seilio ar faint o dunelli a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, yn hytrach nag ar ffurflenni'r Dreth Dirlenwi.

Tabl 1 - Refeniw'r Dreth Dirlenwi


Blwyddyn	Refeniw (£ Miliwn)		
	Y DU	Cymru (amcangyfrif)	Cymru (% o'r DU)
2003-04	607	30	4.9
2004-05	672	33	4.9
2005-06	733	36	4.9
2006-07	804	40	4.9
2007-08	877	38	4.4
2008-09	954	43	4.5
2009-10	842	40	4.7
2010-11	1,065	46	4.4
2011-12	1,090	46	4.2
2012-13	1,092	46	4.2
2013-14	1,189	50	4.2

Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM


- 1.29** Mae'r refeniw yn cael ei seilio ar gyfuniad o'r tunelli a anfonir i safleoedd tirlenwi a chyfradd y dreth a delir. Yn ystod y rhan fwyaf o'r degawd diwethaf, mae cyfradd safonol y dreth wedi cynyddu'n gyflym ac felly, er bod llai o dunelli o wastraff ar y gyfradd safonol yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi, gwelwyd y refeniw'n cynyddu. Mae'r ffaith bod llai o dunelli o wastraff ar y gyfradd safonol yn dangos bod y Dreth Dirlenwi'n llwyddo fel arf polisi. Mae'r duedd hon i'w gweld yn amlwg yn Siart 1 isod, sy'n dangos nifer y tunelli a ddatganwyd fesul chwarter yn y Deyrnas Unedig yn ôl y gwahanol gyfraddau treth.
- 1.30** Nid oes data sy'n benodol berthnasol i Gymru ar gael ar gyfer datganiadau'r Dreth Dirlenwi, a hynny'n bennaf oherwydd bod rhai gweithredwyr yn gweithio ar draws y Deyrnas Unedig i gyd ac mai dim ond un datganiad y byddant yn ei gyflwyno. Serch hynny, bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi data am dueddiadau rheoli gwastraff yng Nghymru. Mae'r data hyn yn dangos tuedd debyg o ran faint o dunelli o wastraff sy'n cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi. Gweler Siart 2. Mae'r symudiad hwn oddi wrth safleoedd tirlenwi at ddulliau eraill o reoli gwastraff yn dangos bod y polisi'n llwyddo. Yng nghyd-destun Cymru, dyna yw nod y Dreth

Dirlenwi, trefniadau rheoleiddio gwastraff Ewrop a pholisïau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys targedau ailgylchu statudol (ynghyd â chynlluniau eraill).

Siart 1 - Tunelli a Ddatganwyd (y Deyrnas Unedig)



Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM

Siart 2 - Tueddiadau rheoli gwastraff 2000/1 - 2013

Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

<http://naturalresourceswales.gov.uk/content/docs/pdfs/our-work/Policy-advice-and-guidance/87161/wales-waste-information-eng?lang=en>

Rhagolygon ar gyfer y Dreth Dirlenwi

- 1.31** Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cyhoeddi rhagolygon ariannol y Deyrnas Unedig, ac yn ei Rhagolwg Economaidd ac Ariannol ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd rhagolygon ar gyfer Cymru am y tro cyntaf. Mae rhagolygon y Swyddfa ar gyfer refeniw blynyddol tan 2019/20 i'w gweld yn Nhabl 2.
- 1.32** Mae'r Swyddfa'n rhagweld y bydd y refeniw yn y Deyrnas Unedig ac yng Nghymru yn dilyn tueddiadau tebyg (i'r hyn a welwyd yn y gorffennol) dros y pum mlynedd nesaf. Serch hynny, efallai mai'r hyn sy'n gyfrifol am hyn i raddau helaeth yw'r fethodoleg a ddefnyddir i ragweld y tueddiadau hyn - methodoleg sy'n dyrannu canran sefydlog o refeniw'r Deyrnas Unedig i Gymru.
- 1.33** Er bod y refeniw ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel Cymru wedi dilyn tueddiadau tebyg yn y gorffennol, mae lle i gredu na fydd y sefyllfa hon o reidrwydd yn parhau yn y dyfodol. Yn benodol, mae Polisi Gwastraff Llywodraeth Cymru, ei thargedau ailgylchu statudol a'i nod o anfon mor agos â phosibl â dim gwastraff (>5%) i safleoedd tirlenwi erbyn 2025, yn cael effaith sylweddol ar reoli gwastraff yng Nghymru.

- 1.34** Un enghraifft o hyn yw'r cyfleuster Troi Gwastraff yn Ynni yng Nghaerdydd a fydd yn trin gwastraff gweddilliol pump awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru erbyn haf 2015. Mae cyfleuster tebyg yn yr arfaeth i drin gwastraff gweddilliol pump awdurdod lleol yn y gogledd. Gallai'r datblygiadau hyn, ochr yn ochr â buddsoddiadau eraill ym maes rheoli gwastraff, a llwyddiant parhaus awdurdodau lleol ac aelwydydd Cymru i gyrraedd eu targedau ailgylchu, olygu bod y refeniw'n gostwng yn sylweddol yng Nghymru dros gyfnod y rhagolygon. Mae nifer y safleoedd tirlenwi sy'n gweithio yng Nghymru'n gostwng ac mae'n bosibl iawn y bydd llai na deg ohonynt erbyn 2010 (28 safle yn 2015). Gallai'r datblygiadau hyn olygu bod y duedd o ran refeniw ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel Cymru'n dilyn gwahanol lwybrau.

Tabl 2 - Rhagolygon y Dreth Dirlenwi

	£ Miliwn					
	2014-15	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
Rhagolygon y DU	1226	1152	1077	1082	1134	1206
Rhagolygon Cymru	54	51	48	48	50	53

Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol

Y ddadl o blaid cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi

- 1.35** Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno Treth Dirlenwi yng Nghymru yn lle'r dreth bresennol oherwydd byddai peidio â gwneud hynny'n creu goblygiadau negyddol sylweddol - goblygiadau ariannol a goblygiadau o ran polisi.
- 1.36** Roedd *Papur Gorchymyn Bil Cymru: Grymuso ac Atebolrwydd Ariannol* yn cadarnhau bwriad Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sef y bydd proses datganoli'r Dreth Dirlenwi yn golygu gostyngiad yng ngrant bloc Llywodraeth Cymru. Ni phenderfynwyd eto pa ddull addasu'n union a ddefnyddir. Serch hynny, tybir mai'r swm a godid yn sgil y Dreth Dirlenwi yng Nghymru yn 2018-19 (blwyddyn gyntaf datganoli trethi) fyddai'r sylfaen ar gyfer y swm a dynnid oddi ar y grant bloc.
- 1.37** Fel y dangosir yn Nhabl 2, yn ôl cyfrifiadau'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, codir £50m drwy'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru yn 2018-19. Bydd angen i'r addasiad mewn blynyddoedd dilynol ystyried y tueddiadau a ddisgwyli'r o ran refeniw a fyddai wedi digwydd oni fyddai'r dreth wedi'i datganoli. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r addasiad gosbi Cymru am unrhyw gynnydd yn y refeniw yn sgil camau a gymerid ganddi, er enghraifft buddsoddi er mwyn sicrhau gwell cydymffurfio â'r drefn drethu.
- 1.38** Petai Llywodraeth Cymru yn dewis peidio â rhoi Treth Dirlenwi ar waith yng Nghymru yn lle'r dreth bresennol, byddai angen i Lywodraeth Cymru naill ai weithredu ar sail cyllideb sylweddol lai (a fyddai'n anodd a chofio ein bod eisoes yn wynebu cyfnod hir o lymder ariannol) neu ddod o hyd i ddulliau eraill o godi refeniw o'r fath er mwyn cynnal yr adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd.

- 1.39 Oni fyddem yn codi Treth Dirlenwi yn lle'r un bresennol, anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi fyddai'r opsiwn gwaredu gwastraff rhataf. Byddai hyn yn effeithio ar y system rheoli gwastraff yng Nghymru ac fe allai danseilio ymdrechion yma i hybu'r hierarchaeth gwastraff (fel y'i disgrifir yng Nghyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd) sy'n ceisio cyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi a dilyn yn hytrach ddulliau atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff.
- 1.40 Gallai hyn effeithio ar allu Llywodraeth Cymru i wireddu ei dyheadau a'i thargedau ei hun ar gyfer rheoli gwastraff sydd yn ei *Strategaeth Tuag at Ddyfodol Ddiwastraff*. Byddai hefyd yn effeithio ar amcanion ehangach Llywodraeth Cymru gyda golwg ar ddatblygu cynaliadwy, newid yn yr hinsawdd a'r amgylchedd.
- 1.41 Fel yr esboniwyd ym Mhennod 2, mae ardal ffin Cymru a Lloegr yn boblog ac mae amrywiaeth o fusnesau rheoli gwastraff yn yr ardal, gan gynnwys safleoedd tirlenwi, bob ochr i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Byddai peidio â chyflwyno treth yng Nghymru yn lle'r dreth bresennol yn debygol o sbarduno twristiaeth gwastraff lle byddai cludwyr gwastraff o Loegr a'r tu hwnt yn teithio i Gymru i waredu eu gwastraff. Byddai hyn yn effeithio hefyd ar les cymdeithasol ac ar yr amgylchedd, er enghraifft, byddai mwy o darfu ar drigolion sy'n byw wrth ymyl safleoedd tirlenwi a gorsafoedd trosglwyddo gwastraff a mwy o bwysau ar y safleoedd tirlenwi sydd ar ôl yng Nghymru. Gallai hefyd arwain at alw am ddynodi safleoedd tirlenwi newydd.

Datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi

Egwyddorion

- 1.42 Mae Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth wedi rhestru'r prif egwyddorion a fydd yn sail i ymagwedd Llywodraeth Cymru at bolisi trethu. Bydd yr egwyddorion hyn yn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn trin busnesau neu unigolion sy'n talu trethu'n deg; bydd y drefn yn syml a'r rheolau'n glir gan geisio sicrhau bod costau cydymffurfio a gweinyddu cyn ised â phosibl; bydd yn hybu twf a swyddi a hynny yn ei dro yn gymorth i drechu tlodi; a bydd yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.

Y Prif Ffactorau

- 1.43 Mae rhai ffactorau pwysig eraill a fydd yn nodwedd bwysig wrth ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi. Ymhlith y rhain, ystyrir sut y gallai'r dreth wneud y canlynol:
- cefnogi a chyflawni nodau Llywodraeth Cymru yng nghyswllt Tuag at Ddyfodol Diwastraff, newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy, heb i hynny niweidio busnesau neu amharu arnynt yn ddiangen

- adlewyrchu'r datblygiadau yn y sector gwastraff dros yr 20 mlynedd diwethaf gan gynnwys arferion rheoli gwastraff modern a datblygiadau technolegol, ynghyd â newidiadau i dirwedd Reoleiddiol Ewrop
- cadw'n gyson â threfniadau'r Deyrnas Unedig lle bydd hynny'n briodol er mwyn hwyluso'r gwaith gweinyddu neu er mwyn atal twristiaeth gwastraff a hefyd newid pethau bydd rheswm da dros wneud hynny er mwyn sicrhau mwy o eglurdeb, symleiddio'r gweinyddu a gwella'r cydymffurfio
- datblygu fframwaith gweinyddu effeithlon a chost-effeithiol, yn enwedig a chofio bod nifer y safleoedd tirlenwi'n gostwng a bod disgwyl i reffeniwr dreth grebachu.
- sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosibl i Awdurdod Cyllid Cymru, Llywodraeth Cymru, byd diwydiant, rheoleiddwyr, awdurdodau lleol a'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach gydweithio er mwyn sicrhau bod y dreth yn cael ei rhoi ar waith yn effeithiol.

1.44 Dros yr ychydig fisoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio barn gychwynnol rhanddeiliaid i lywio'r cynigion a restrir yn y ddogfen ymgynghori hon. Mae hyn wedi cynnwys sefydlu Grŵp Arbenigwyr Technegol sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'r diwydiant a chynnal gweithdai i randdeiliaid yn y gogledd a'r de.

Pennod 2: Cyfraddau'r Dreth a Gwarediadau Trethadwy

CYFLWYNIAD


2.1 Yn y bennod hon, ystyrir gwaredu deunyddiau a chyfraddau'r dreth y dylid eu codi. Yn benodol, gofynnir am farn pobl am y canlynol:

- cyfraddau'r dreth
- deunydd trethadwy
- yr ardal lle y bydd gwarediad trethadwy'n digwydd
- credyd ar gyfer gwastraff tirlenwi sy'n cael ei symud oddi ar safle
- gweithgareddau ar safleoedd tirlenwi y dylid eu trin yn weithgareddau gwaredu
- yr eithriadau a'r gostyngiadau y dylid eu rhoi ar waith

CYNIGION

Cyfraddau'r Dreth

2.2 Codir y Dreth Dirlenwi ar sail pwysau'r gwastraff sy'n cael ei waredu mewn safle tirlenwi. Mae cyfradd dreth is yn berthnasol i'r deunyddiau sydd wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011. Gweler Atodiad 1. Mae'r gyfradd dreth is wedi gostwng yn gyson mewn termau real ers cyflwyno'r dreth (nid yw wedi cyd-fynd â chwyddiant). £2/y dunnell oedd y gyfradd is pan gyflwynwyd y dreth a'r gyfradd ar hyn o bryd yw £2.50/y dunnell. Mae cyfradd dreth safonol yn berthnasol i bob gwarediad trethadwy arall. Mae'r gyfradd hon wedi codi o £7/y dunnell yn 1996 i £80/y dunnell yn 2014-15.

Siart 3 – Cyfraddau'r Dreth Dirlenwi

- 2.3** Yn Natganiad Cyllideb y Deyrnas Unedig yn 2014, cyhoeddwyd y byddai cyfraddau'r Dreth Dirlenwi yn y dyfodol yn aros yr un fath mewn termau real (ar sail cyfradd chwyddiant yn ôl y Mynegai Prisiau Manwerthu) tan 2019/20 o leiaf. Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyhoeddi'n ddiweddar y bydd yn pennu'r un cyfraddau treth â Chyllid a Thollau EM ar gyfer 2015-16.⁹
- 2.4** Wrth iddi gyflwyno'i chyfraddau treth, dywedodd Llywodraeth yr Alban y byddai'n sicrhau bod y trethi a godid yn sgil Treth Dirlenwi yn yr Alban yn niwtral o ran refeniw, o'i chymharu â chyfradd Llywodraeth y Deyrnas Unedig; byddai'n mynd i'r afael â phryderon ynghylch 'twristiaeth gwastraff' bosibl petai gwahaniaeth sylweddol rhwng cyfraddau'r dreth a godid yn yr Alban a'r cyfraddau yng ngweddill y Deyrnas Unedig; a bod hyn yn cynnig y cymhellion ariannol priodol er mwyn ei helpu i gyrraedd ei nod Diwastraff, sef y dylai < 5% o gyfanswm y gwastraff fynd i safleoedd tirlenwi erbyn 2025 - yr un nod ag sydd gan Gymru.


Datblygu dull gweithredu yng Nghymru

- 2.5** Un o'r prif egwyddorion sy'n tywys datblygu trethi datganoledig yng Nghymru yw rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod gofyn i fusnesau gael sefydlogrwydd a sicrwydd tymor hir yn sylfaen i'w cynlluniau busnes a'u buddsoddiadau.

⁹<http://www.scotland.gov.uk/Publications/2014/10/2706/4>

- 2.6 Er na fydd Llywodraeth Cymru yn cadarnhau'r cyfraddau tan yn nes at yr adeg y cyflwynir y dreth (2018) mae'n yn gofyn am farn pobl yn yr ymgynghoriad hwn a fydd yn ei galluogi i gyrraedd safbwynt ystyriol am gyfraddau'r dreth.
- 2.7 Un opsiwn i Lywodraeth Cymru fyddai cynyddu neu ostwng lefel cyfradd is a/neu gyfradd safonol y Dreth Dirlenwi o'i chymharu â'r dreth a bennir mewn mannau eraill yn y Deyrnas Unedig. Gallai cyfradd dreth wahanol rhwng gwledydd cyffiniol greu 'twristiaeth gwastraff' lle y byddai'n rhatach i gludwyr gwastraff deithio ymhellach ar draws ffiniau gwledydd i waredu eu gwastraff. Yn yr un modd, mae'r posibilrwydd y gwelid 'ôl-gludo' lle y byddai loriâu'n croesi ffiniau i gludo llwyth ac wedyn yn cludo gwastraff yn ôl er mwyn manteisio ar gyfradd dreth fwy ffafriol.
- 2.8 Fel y dangosir ar Fap 1, mae'r rhan fwyaf o'r safleoedd tirlenwi yng Nghymru (a phoblogaeth Cymru) o fewn 50 milltir i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae hyd yn oed rhagor o safleoedd tirlenwi o fewn 50 milltir i'r ffin ar ochr Lloegr. Mae llawer o'r safleoedd tirlenwi yng ngogledd-ddwyrain a de-ddwyrain Cymru yn nes o lawer na hyn at safleoedd yn Lloegr. Mae costau cludo'n debygol o fod yn ffactor o bwys wrth ystyried hyn.

Map 1 - Safleoedd Tirlenwi a Phoblogaethau - Ffin Cymru/Lloegr¹⁰



¹⁰ Lleoliad safleoedd tirlenwi yn seiliedig ar ddata CThEM 2012

http://customs.hmrc.gov.uk/channelsPortalWebApp/channelsPortalWebApp.portal?_nfpb=true&_pageLabel=pageExcise_ShowContent&id=HMCE_PROD_009941&propertyType=document

- 2.9** Yn ystod trafodaethau cynnar Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid, awgrymwyd nad oes fawr o gefnogaeth o blaid newid y gyfradd dreth safonol ond bod lle i ystyried cynyddu'r gyfradd dreth is er mwyn annog cynhyrchwyr gwastraff i beidio ag anfon deunyddiau cymwys i safleoedd tirlenwi ond yn hytrach i'w aildddefnyddio, ei ailgylchu a'i adfer.
- 2.10** Mae Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) 2014¹¹ yn rhoi pŵer i Lywodraeth yr Alban (drwy is-ddeddfwriaeth) i bennu gwahanol gyfraddau treth is ar gyfer gwahanol gategoriâu o ddeunydd cymwys er nad ydynt yn bwriadu rhoi'r pŵer hwn ar waith pan gyflwynir Treth Dirlenwi'r Alban yn y lle cyntaf
- 2.11** Mae rhanddeiliaid wedi awgrymu y dylid cadw'r cyfle hwn i Lywodraeth Cymru hefyd, er mwyn sicrhau hyblygrwydd yn y dyfodol petai angen gallu ymateb i newidiadau economaidd, amgylchiadau cymdeithasol a/neu ddatblygiadau amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli hefyd, petai Llywodraeth y Deyrnas Unedig neu Lywodraeth yr Alban yn cyflwyno newidiadau sylweddol a/neu sydyn i'w cyfraddau treth, yna, y byddai'n ddymunol iddi hithau allu newid pethau er mwyn osgoi unrhyw effeithiau negyddol.

Cwestiwn 1: Pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cadw'n gyson â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban o ran cyfraddau'r Dreth Dirlenwi a pham?

Cwestiwn 2: A yw'r cyfraddau treth safonol ac is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.2) wedi'u gosod ar lefel briodol i Gymru? Esboniwch eich ymateb.

Cwestiwn 3: A oes unrhyw werth mewn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwahanol gyfradd o dreth is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.10 - 2.11) a pham?

¹¹ S. 13(6) Deddf Treth Dirlenwi (yr Alban) Act 2014

Diffinio'r deunydd trethadwy

Gwastraff y dylid ei gategoreiddio'n ddeunydd cymwys ac y dylid codi'r gyfradd dreth is ar ei gyfer.

2.12 Ar hyn o bryd, mae'r Gorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011 yn pennu'r deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is (Atodiad 1). Wrth bennu pa ddeunydd y dylid ei restru yn ei Orchymyn cyfradd is, rhaid i Drysorlys EM ystyried a yw'r deunydd yn cyflawni'r meini prawf a ganlyn (yn ogystal ag unrhyw ffactorau eraill y byddant yn eu hystyried yn berthnasol)¹²:

- Gwastraff nad yw'n beryglus
- Potensial isel ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwyr
- Potensial llygru isel yn yr amgylchedd tirlenwi

2.13 Gan dybio y byddem yn cadw'r gyfradd dreth is ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, byddai'n dda gennym glywed eich barn ynglŷn ag a ddylid newid y rhestr o ddeunyddiau cymwys y codir y gyfradd dreth is amdanynt (Atodiad 1), er enghraifft a ellid mireinio'r rhestr eto er mwyn gwneud pethau'n fwy clir i'r sector gwastraff ac i Awdurdod Cyllid Cymru.

2.14 Wrth bennu cyfraddau'r dreth ar gyfer gwahanol ddeunyddiau, efallai y gellid ystyried hefyd sut y gall Treth Gwarediadau Tirlenwi helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni amcanion ei pholisi gwastraff a sut y gellid diweddarau'r dreth i adlewyrchu arferion rheoli gwastraff modern a datblygiadau technolegol yn well ochr yn ochr â newidiadau i dirwedd reoleiddio Ewrop.

Cwestiwn 4: A oes unrhyw newidiadau i restr y deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is (Atodiad 1) y dylid eu hystyried, ac ar ba sail?

Cydymffurfio â'r gyfradd dreth is

2.15 Ar hyn o bryd, o dan ddeddfwriaeth y Dreth Dirlenwi, *Ile bydd deunydd yn cael ei waredu, rhaid ei drin fel petai'n ddeunydd cymwys petai mewn gwirionedd yn ddeunydd o'r fath heblaw bod ynddo swm bychan o ddeunydd nad yw'n gymwys*¹³ (mae Excise Note LfT1: A general guide to Landfill Tax yn galw hyn yn ddeunydd damweiniol). Mae Cyllid a Thollau EM yn cydnabod y bydd llwyth o wastraff cymwys bron bob tro'n cynnwys rhywfaint o wastraff gweddilliol anghymwys.

¹² A. 42 Deddf Gyllid 1996 ac Excise Note LfT1: A general guide to Landfill Tax

¹³ A. 63(1) Deddf Gyllid 1996

- 2.16** Mae 'swm bychan' o ddeunydd anghymwys yn gysyniad amwys ac yn agored i'w ddehongli. Mae'r ansicrwydd hwn yn golygu y gallai fod swm sylweddol is o dreth yn cael ei dalu na phetai'r deunydd cyfradd uwch sydd wedi'i gymysgu â'r llwyth cyfradd is yn cael ei drethu ar y gyfradd uwch. Dangosir hyn mewn adroddiad gan y diwydiant¹⁴ a oedd yn dweud petai 30% yn cael ei ystyried yn 'swm bychan', yna byddai llwyth 20 tunnell yn golygu bod bil y Dreth Dirlenwi'n £50 ar y gyfradd dreth is. Ond, petai'r gyfradd uwch yn cael ei chodi, byddai bil y dreth dirlenwi'n sylweddol uwch, sef £1,600 (cyfraddau 2014/15).
- 2.17** Mae rhai rhanddeiliaid wedi dweud eu bod yn poeni y byddai diffinio beth yw swm 'bychan/damweiniol' yn annog pobl i gamymddwyn er enghraifft cymysgu gwastraff yn fwriadol hyd at drothwy penodedig ac mae rhanddeiliaid eraill yn cytuno y dylai fod rhywfaint o ryddid i farnu a hyblygrwydd. Ar y llaw arall, mae rhai rhanddeiliaid yn teimlo y dylid pennu trothwy a sawl un yn awgrymu y byddai 10% yn fwy na digonol.
- 2.18** Mae eraill yn dadlau y byddai gorfodi Penderfyniad Cyngor yr Undeb Ewropeaidd 2003/33/EC am y meini prawf ar gyfer derbyn gwastraff yn help i lywio cwmnïau gwastraff i ddefnyddio gwell trefniadau gwahanu wrth gasglu (er mwyn sicrhau ailgylchu o safon uchel) ac oddi wrth ddull casglu gwastraff cymysg. Byddai rhoi'r meini prawf ar waith ar gyfer derbyn gwastraff ar waith yn debygol iawn o leihau'n sylweddol y swm bychan o wastraff anghymwys mewn llwyth cymwys.

Cwestiwn 5: Pa mor ymarferol fyddai cyflwyno trothwy i ddiffinio 'swm bychan' o wastraff anghymwys mewn llwyth o ddeunydd cymwys?

Cyflwyno prawf Colli wrth Danio

- 2.19** Bydd Cyllid a Thollau EM yn cyflwyno prawf Colli wrth Danio ym mis Ebrill 2015 fel rhan o'i ymdrechion i atal camgategoreiddio mân wastraff gweddilliol safleoedd trin mecanyddol sy'n cael eu gynhyrchu wrth wahanu, didoli a sgrinio (h.y. y mân ddarnau o wastraff sy'n weddill ar ôl prosesu gwastraff). Nid yw'r mân weddillion yn cael eu dynodi ar wahân yn neddfwriaeth y Dreth Dirlenwi, ond mae'n bosibl codi cyfradd is ar eu cyfer os dim ond y deunyddiau sydd wedi'u rhestru yng Ngorchymyn Treth Dirlenwi (Deunydd Cymwys) 2011 sydd ynddynt neu os deunydd o'r math hwnnw ydynt yn bennaf, ac eithrio bod ynddynt swm bychan o ddeunydd anghymwys.
- 2.20** Bydd y prawf Colli wrth Danio'n golygu samplo'r mân weddillion a'u profi o dan amodau labordy). Mae'r prawf yn pennu pa elfen o'r wastraff sy'n bydradwy

¹⁴ *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret (2014)* - Eunomia Research and Consulting a gomisiynwyd ar ran Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol.

a/neu'n hylosg sy'n dangos potensial llygru tebygol y deunydd¹⁵. Bydd y prawf yn helpu gweithredwyr safleoedd tirlenwi i benderfynu'r swm cywir o dreth sy'n daladwy ar gyfer y mân-weddillion gan sicrhau bod y gyfradd dreth briodol yn cael ei thalu.

- 2.21** Bydd cyfradd is y Dreth Dirlenwi'n berthnasol lle bydd y mân weddillion yn cyrraedd trothwy'r prawf Colli wrth Danio (elfen bydradwy a/neu hylosg y gwastraff) sef 15% neu'n is (a'r ganran honno'n gostwng i 10% ar ôl blwyddyn). Mae'r drefn brofi hon mewn gwirionedd yn diffinio 'swm bychan' o ddeunydd anghymwys yn fwy manwl ac mewn ffordd haws ei mesur, er nad yw hyn ond yn wir yng nghyd-destun mân weddillion.
- 2.22** Mae rhanddeiliaid i bob golwg yn gyffredinol o blaid y prawf Colli wrth Danio a'r farn gychwynnol yw y dylai Cymru barhau i roi'r prawf hwn ar waith ar ôl datganoli'r Dreth Dirlenwi. Serch hynny, mae rhanddeiliaid wedi codi rhai pethau ynghylch agweddau ymarferol rhoi'r prawf ar waith a bydd Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid cadw golwg ar drefniadau profi Colli wrth Danio Cyllid a Thollau EM a'r Alban.¹⁶

Cwestiwn 6: A fydddech o blaid cyflwyno prawf Colli wrth Danio (LoI) pan gaiff y Dreth Dirlenwi ei datganoli? Esboniwch eich rhesymau.

Diffinio'r ardal lle y bydd gwaredu trethadwy'n digwydd.

- 2.23** Er mwyn i warediad fod yn drethadwy, mae angen i'r gwaredu ddigwydd mewn safle tirlenwi. Mae'n bosibl i'r safle gynnwys ardaloedd storio neu ardaloedd didoli gwastraff i'w ailgylchu. Os defnyddir gwastraff fel hyn mewn ffordd anhrethadwy, rhaid i hynny ddigwydd mewn 'ardal wybodaeth' ddynodedig. Mae'r gweithgareddau hyn yn gorfod cydymffurfio â gofynion gweinyddol ychwanegol gan gynnwys cadw cofnodion ar wahân a phwyso/nodi nodweddion y gwastraff.
- 2.24** Mae cyfle yma i ddiffinio'n eglurach ym mha ardal y mae gwarediad trethadwy'n digwydd. Mae'r ffordd y mae trefniadau amddiffyn yr amgylchedd yn cael eu rheoleiddio ar draws y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd yn golygu bod yr ardal dipio bellach yn cael ei nodi'n fwy clir ar drwyddedau safleoedd. Un opsiwn posibl fyddai deddfu i bennu mai'r ardal drethadwy ar safle yw ardal sy'n cael ei dynodi yn y

¹⁵Bydd y deunydd hylosg yn cynnwys deunydd organig a fydd, pan anfonir ef i safle tirlenwi, yn cynhyrchu methan (nwy tŷ gwydr pŵerus) a thrwytholch. Mae'r deunydd organig hwn yn rhan nodweddiadol o wastraff cyfradd safonol (h.y. deunydd nad yw'n gymwys). Nod y polisi gwastraff yw anfon llai o'r deunydd hwn i safleoedd tirlenwi, er mwyn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r safleoedd hyn.

¹⁶Disgwylir i'r Alban gyflwyno trefn brofi Colli wrth Danio hefyd fel rhan o'i Threth Dirlenwi yno. Mae Cyllid a Thollau EM a'r Alban fodd bynnag wedi datblygu gwahanol ddulliau ar wahân i'w gilydd yn sgil amserlen datganoli Treth Dirlenwi'r Alban.

drwydded amgylcheddol yn ardal dipio. Byddai hyn yn sicrhau gwell cysondeb rhwng gofynion y dreth a gofynion y drwydded amgylcheddol.

- 2.25 Serch hynny, gallai hyn godi ystyriaethau ymarferol ynghylch y pwynt trethu (ar hyn o bryd, mae'r pwynt trethu wrth fynedfa safle lle bydd pont bwyso fel rheol) ac a ddylid symud y pwynt trethu i'r fan lle y bydd gwastraff yn mynd i mewn i'r ardal dipio. Byddai hyn yn newid sylweddol ac fe allai fod yn gymhleth i'w weithredu o ran pwyso a chofnodi nodweddion llwythau. Gallai hefyd ei gwneud hi'n fwy tebygol bod anghydfodau'n codi a bod pobl yn efadu talu.

Cwestiwn 7: A oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol ar gyfer diffinio'r ardal lle y bydd gwaredu trethadwy'n digwydd, ac os felly, sut y gellid datrys y rhain?

Credyd ar gyfer symud gwastraff oddi ar safle tirlenwi

- 2.26 O dan drefniadau'r Dreth Dirlenwi bresennol¹⁷, caiff trethdalwyr hawlio credyd am ddeunydd sy'n cael ei symud yn barhaol oddi ar safle tirlenwi naill ai:
- i safle tirlenwi arall
 - i'w ailgylchu, i'w losgi neu i'w aildddefnyddio
- 2.27 Rhaid cydymffurfio ag amodau penodol er mwyn gallu hawlio'r credyd, gan gynnwys gallu dangos cofnodion priodol yn dystiolaeth wrth hawlio. Cyfrifir y credyd ar sail y gyfradd dreth a oedd yn berthnasol adeg gwaredu'r gwastraff yn y lle cyntaf.
- 2.28 Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau bod unrhyw drefniadau sy'n rhoi credyd am symud gwastraff o safleoedd tirlenwi'n deg, yn syml ac yn briodol.

Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, a oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol sy'n rhoi credyd am symud deunydd yn barhaol o safle tirlenwi, ac os felly, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain.

¹⁷ Part V of the Landfill Tax Regulations SI 1996/1527

Gweithgareddau ar safleoedd tirlenwi a gaiff eu trin yn waredu (ac sydd felly'n gymwys i'w trethu)

- 2.29** Er mwyn i warediad fod yn drethadwy, rhaid gwaredu deunydd fel gwastraff, sef yn ôl diffiniad y ddeddfwriaeth *pan fydd y sawl sy'n gwaredu yn gwneud hynny gyda'r bwriad o gael gwared ar y deunydd*¹⁸. Mae ystyr y geiriau hyn wedi arwain at sawl achos llys, a gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn dadlau yn y bôn fod y deunydd yn cael ei 'ddefnyddio' ar ôl iddo fynd i mewn i'r safle tirlenwi ac nad yw wedi'i waredu ac felly nad oes treth yn daladwy arno. Mae gwerth yr hawliadau sydd gerbron y llysoedd ar hyn o bryd yn golygu bod cyfran sylweddol o refeniw blynyddol y Dreth Dirlenwi o dan fygythiad.
- 2.30** Cyflwynodd Cyllid a Thollau EM Orchymyn y Dreth Dirlenwi (Gweithgareddau Rhagnodedig Safleoedd Tirlenwi) 2009 ynghyd â chanllawiau ychwanegol gyda'r bwriad o'i gwneud hi'n fwy clir pa weithgareddau ar safleoedd tirlenwi sydd i'w trin yn warediadau. Mae'r Gorchymyn yn rhestru'r gweithgareddau sy'n gymwys i'w trethu - gan gynnwys deunydd sy'n cael ei dderbyn ar safle tirlenwi a ddefnyddir ar y safle hwnnw. Serch hynny, mae hwn yn faes sy'n dal i gael ei herio er enghraifft, - a yw'r nwy methan a gynhyrchir o ddeunydd sydd wedi'i anfon i'w dirlenwi'n ddefnydd o'r deunydd na ddylai felly fod yn drethadwy.
- 2.31** Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio ffyrdd o gynllunio Treth Dirlenwi yn lle'r un bresennol sy'n ystyried y materion sy'n codi yn yr achosion hyn ac sy'n cynnig eglurdeb i'r trethdalwr a hefyd i Awdurdod Cyllid Cymru. Un opsiwn sydd wedi'i gynnig yw ystyried deddfu ar y sail bod yr holl ddeunydd sy'n mynd i safle tirlenwi (ac eithrio'r deunydd hwnnw sydd wedi'i eithrio'n benodol) yn gymwys i'w drethu.
- 2.32** Rydym yn gobeithio mabwysiadu ymagwedd synnwyr cyffredin at eitemau a fyddai'n cael eu heithrio; gallai hyn gynnwys er enghraifft, offer a pheiriannau sy'n gwneud y gwaith tipio a deunydd sy'n cael ei storio mewn ardal nad yw'n ardal waredu. Rydym hefyd am sicrhau bod unrhyw drefniadau newydd yn ategu ymdrechion i aildefnyddio, ailgylchu ac adennill gwastraff ac yn lleihau beichiau gweinyddol.

Cwestiwn 9: Beth fyddai goblygiadau ymarferol deddfu ar y sail bod yr holl ddeunydd sy'n mynd i safle tirlenwi (ac eithrio'r deunydd hwnnw sydd wedi'i eithrio'n benodol) yn gymwys i'w drethu?

¹⁸ A. 64(1) Deddf Gyllid 1996

Cwestiwn 10: Pa weithgareddau y byddech yn disgwyl iddynt gael eu heithrio (peidio â chael eu trethu) a pham?

Cwestiwn 11: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut y gallem wneud y gweithgareddau trethadwy a'r rhai anhrethadwy ar safle tirlenwi'n fwy clir a beth fyddai goblygiadau ymarferol y rhain?

Eithriadau a Gostyngiadau

2.33 O dan drefniadau'r Dreth Dirlenwi bresennol¹⁹ ceir nifer o eithriadau lle nad yw'r Dreth Dirlenwi'n daladwy os cydymffurfir ag amodau penodol. Dyma'r amodau hynny:

- Ysgeintiadau - deunydd a dynnir o ddŵr
- Gwastraff mwyngloddio a chwarelydda
- Llenwi chwareli
- Mynwentydd anifeiliaid anwes
- Gwastraff lluoedd sy'n ymweld (NATO)

2.34 Yn ystod trafodaethau cychwynnol Llywodraeth Cymru â rhanddeiliaid, mae rhai wedi holi a ddylai Treth Gwarediadau Tirlenwi gynnwys eithriadau neu ostyngiadau, gan awgrymu y gallai hyn fod yn agored i gamfanteisio, anghysondeb wrth eu rhoi ar waith ac y gallai arwain at anghydfod. Yn ogystal â hyn, gallai nifer yr eithriadau a'r gostyngiadau hefyd ychwanegu at gymhlethdod y dreth ac ychwanegu costau gweinyddu.

Cwestiwn 12: A ydych yn meddwl y dylid dileu neu addasu unrhyw rai o'r eithriadau presennol? Esboniwch eich ymateb.

2.35 Rhoddir gostyngiad ar gyfer dŵr hefyd²⁰ os cydymffurfir ag amodau penodol. Mae'n bosibl rhoi gostyngiad ar gyfer y dŵr sydd mewn gwastraff lle nad yw'n bresennol yn naturiol wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r gwastraff. Mae sawl rheswm dros ychwanegu dŵr at wastraff, gan gynnwys i'w gludo er mwyn ei waredu ac yn

¹⁹ A. 43-45 o Ddeddf Cyllid 1996 ac Excise Note LfT1: A general guide to Landfill Tax

²⁰ Rheoliad 44 o'r Reoliadau'r Dreth Dirlenwi 1996 (SI 1996/1527) ac Excise Note LfT1: A general guide to Landfill Tax

sgil proses ddiwydiannol.

- 2.36** Cydnabyddir yn gyffredinol bod y gostyngiad ar gyfer dŵr yn eithaf cymhleth, a bod hyn yn gallu arwain at fwy o gamfanteisio, anghysondeb ac anghydfodau. Hefyd, o safbwynt amgylcheddol ac iechyd y cyhoedd, mae rhai'n poeni am y llygredd sy'n cael ei achosi wrth waredu dŵr i safle tirlenwi. Mae gwaredu gwastraff hylifol mewn safleoedd tirlenwi wedi cael ei wahardd hefyd o dan Gyfarwydddeb Tirlenwi'r Undeb Ewropeaidd. Felly, efallai fod llai o angen rhoi gostyngiad ar gyfer dŵr nag a oedd yn 1996 pan gyflwynwyd y Dreth Dirlenwi gyntaf.

Cwestiwn 13: A oes dadl o blaid dileu neu addasu'r gostyngiad ar gyfer dŵr? Esboniwch eich ymateb.

- 2.37** Mae rhanddeiliaid eraill wedi dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn cyflwyno eithriadau a gostyngiadau newydd, gan awgrymu y gallai hyn fod yn ffordd o deilwra'r dreth i adlewyrchu gwahanol amgylchiadau a rhoi'r dreth ar werth mewn ffordd decach.

Cwestiwn 14: A ydych yn meddwl bod lle i gyflwyno eithriadau neu ostyngiadau newydd, ac os felly, beth ddylai'r rhain fod a pham?

Pennod 3: Cydymffurfio a Gorfodi

CYFLWYNIAD

3.1 Mae'r Bennod hon yn ystyried cynigion i sicrhau bod fframwaith cydymffurfio a gorfodi effeithiol yn cael ei roi ar waith a bod cyn lleied o effeithiau negyddol ag y bo modd yn sgil gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon, yn enwedig y rheini a achosir gan y sawl sy'n ceisio efadu talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Yn benodol, mae'n ceisio barn pobl am hyn:

- Gwella'r rheoleiddio:
 - Defnyddio pontydd pwyso
 - Ehangu'r diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys dyddodion gwastraff anghyfreithlon o fewn cwmipas y dreth
 - Cosbau troseddol a sifil
- Sicrhau bod efadu talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl
- Mynd i'r afael ag Osgoi Talu'r Dreth

Y CEFNDIR

3.2 Bydd y rhan fwyaf o bobl yn talu unrhyw drethi sy'n ddyledus o'u gwirfodd gan gydnabod bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn dibynnu ar arian o'r fath. Bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud talu trethi datganoledig mor rhwydd â phosibl. Serch hynny, bydd lleiafrif o bobl yn ceisio osgoi talu treth. Gall efadu talu treth roi mantais annheg i bobl dros y rheini sy'n talu eu trethi ac mae'n golygu bod llai o arian ar gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn annerbyniol a bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu trefniadau cadarn i rwystro hyn.

3.3 Cafwyd achosion o efadu talu'r Dreth Dirlenwi. Yn aml iawn, achosion lle mae pobl wedi ceisio osgoi'r gyfradd dreth uwch oedd y rhain. Mae'r gyfradd dreth safonol wedi codi'n gyflym yn y blynyddoedd diwethaf (i £80/y dunnell yn 2014/15) ac mae rhai pobl yn meddwl bod yr elw y gellir ei wneud drwy weithgareddau gwastraff anghyfreithlon yn gwrthbwysu'n sylweddol y risg o gael eu dal.

3.4 Mae'n bosibl osgoi talu'r Dreth Dirlenwi mewn sawl ffordd, gan gynnwys camgategoreiddio gwastraff, peidio â datgan gwastraff, a chamfanteisio ar eithriadau a gostyngiadau. Gall mathau eraill o gamymddwyn ddylanwadu'n uniongyrchol ar gymunedau hefyd, gan gynnwys safleoedd gwastraff anghyfreithlon, tipio anghyfreithlon, tanau gwastraff ac allforio gwastraff yn anghyfreithlon.

- 3.5 Mewn adroddiad diweddar gan y diwydiant²¹ gwelwyd bod troseddau gwastraff yn costio oddeutu £568 miliwn y flwyddyn i economi'r Deyrnas Unedig. Y ffigur pro-rata ar gyfer economi Cymru fyddai oddeutu £28 miliwn y flwyddyn.²²
- 3.6 Canfu'r modelu a gyflwynir yn yr un adroddiad fod pob £1 a werir ar orfodaeth ym maes troseddau gwastraff yn golygu y gall y Llywodraeth ddisgwyl adennill rhwng £3.60 a £5.60.
- 3.7 Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dechrau canolbwyntio mwy ar droseddau gwastraff yn y flwyddyn ddiwethaf, a rhoddwyd £5m i Asiantaeth yr Amgylchedd i sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol ym maes cyfraith gwastraff yn Lloegr.

Ymdrechion sydd ar y gweill i sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol ym maes cyfraith gwastraff yng Nghymru.

- 3.8 Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol swyddogaeth reoleiddio i sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol ym maes cyfraith gwastraff, a bod gwastraff yn cael ei reoli heb niweidio'r amgylchedd na iechyd pobl.
- 3.9 Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cysylltu'n glos ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) ynghylch y cynlluniau a gynigir yn ei Chynllun Gweithredu ar Droseddau Gwastraff ac wedi bod yn trafod â Cyfoeth Naturiol Cymru pa gamau y gellir eu cymryd yng Nghymru i fynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon ym maes gwastraff a gwella perfformiad safleoedd a'r cydymffurfio yn y sector gwastraff. Yn y tymor byr, bydd Llywodraeth Cymru yn ymgynghori â Defra am y newidiadau i'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol i ymestyn rhai o'r pwerau gorfodi sydd ar gael i'r rheoleiddiwr. At hynny, mae'r ymgynghori²³ hefyd yn cynnwys Cais am Dystiolaeth sy'n gwahodd pobl i fynegi eu barn am gamau eraill y mae'r Llywodraeth yn dymuno'u hystyried er mwyn mynd i'r afael â throseddau gwastraff.
- 3.10 Mae polisi gwastraff wedi'i ddatganoli ac mae Adran Cyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru yn datblygu amrywiaeth o gynlluniau i fynd i'r afael â throseddau gwastraff. Mae'r rhain yn cynnwys camau yn strategaeth Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon - *Cymru Ddi-dipio*²⁴ ac ymgynghoriad a gwblhawyd yn ddiweddar â Defra ar bwerau cychwyn yn y Ddeddf Cymdogaethau Glân i gryfhau pwerau awdurdodau lleol i atafaelu cerbydau yng nghyswllt troseddau sy'n ymwneud â gwastraff.

²¹ *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret (2014)* - Eunomia Research and Consulting a gomisiynwyd ar ran Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol.

²² Mae'r ffigur hwn yn cynnwys efadu talu'r dreth (tybir mai tua £157m yw hyn), allforion anghyfreithlon ac adfer safleoedd gwastraff anghyfreithlon, llosgi anghyfreithlon a thipio anghyfreithlon.

²³ <http://wales.gov.uk/consultations>

²⁴ <http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/cleanneighbour/flytipping/?skip=1&lang=cy>

- 3.11** Mewn datblygiadau eraill, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar hyn o bryd gyda Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu system dyletswydd gofal electronig (e-doc) a fyddai'n hwyluso trefn gyson a chywir i drosglwyddo cofnodion gwastraff drwy'r gadwyn gasglu a rheoli. Gallai datblygu a mabwysiadu system e-doc fod o fudd o ran symleiddio trefniadau gweinyddu'r dreth a hybu cydymffurfio.

CYNIGION

- 3.12** Fel y dywedwyd yn egwyddorion trethu'r Gweinidog, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sefydlu trefniadau trethu yng Nghymru sy'n syml ac yn hawdd eu deall. Bydd hyn yn help i hybu cydymffurfio, yn enwedig ymhlith y rheini sydd o ddifri'n cael eu drysu neu ambell waith yn ddiofal wrth dalu eu treth.
- 3.13** Serch hynny, mae lleiafrif bach sy'n mynd ati'n fwriadol i osgoi talu trethi a thrwy drafod â rhanddeiliaid, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried nifer o opsiynau i sicrhau bod llai o gyfle i bobl beidio â chydymffurfio.

Gwella'r rheoleiddio

i) Cyflwyno dyletswydd i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddefnyddio pont bwysu lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi neu'n agos at y safle, ynghyd a chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny.

- 3.14** Mae swm y dreth sy'n ddyledus yn cael ei gyfrifo ar sail pwysau'r deunydd sy'n cael ei waredu; felly mae gofyn cael methodolegau pwysu digon cywir i sicrhau bod y broses yn gyson, yn agored ac yn deg. Ar hyn o bryd, mae Canllawiau Treth Dirlenwi Cyllid a Thollau EM (LfT1) yn dweud bod *disgwyl* i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddefnyddio pont bwysu os oes un yno.
- 3.15** Er mwyn gwneud pethau'n fwy clir i drethdalwyr ac i Awdurdod Cyllid Cymru, gellid cyflwyno dyletswydd i ddefnyddio pont bwysu lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi neu'n agos at y safle ynghyd â chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny.
- 3.16** Byddai gofyn rhoi trefniadau eraill ar waith petai pont bwysu'n torri neu pan na fyddai pont bwysu arall ar gael yn y cyffiniau. Byddai angen cytuno ar y trefniadau hyn ag Awdurdod Cyllid Cymru.
- 3.17** Gallai hyn greu maes chwarae tecach rhwng gweithredwr a gallai fod yn rhwystr ariannol sy'n gwrthbwysu'r risg/elw sydd i'w wneud trwy danddatgan gwastraff.
- 3.18** Bwriedir i Dreth Dirlenwi yr Alban gyflwyno dyletswydd i ddefnyddio pont bwysu a chosb gyfatebol yn yr Alban.

Cwestiwn 15: Beth fyddai goblygiadau ymarferol rhoi dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i ddefnyddio pont bwyso lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi, neu yn y cyffiniau agos, ynghyd a chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny?

ii) Estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi

- 3.19** Mae strwythur y Dreth Dirlenwi yn golygu na ellir ei gorfodi ar warediadau gwastraff anghyfreithlon oherwydd nad ydynt yn safleoedd tirlenwi'n unol â diffiniad y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, petai'r Dreth Dirlenwi wedi bod yn daladwy am waredu gwastraff anghyfreithlon, mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn amcangyfrif y byddai safle gwastraff anghyfreithlon a ganfuwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn ddiweddar wedi bod yn atebol am dalu dros £2 filiwn o dreth.
- 3.20** At hynny, cofnodwyd dros 32,000 o ddigwyddiadau o dipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus yng Nghymru yn ystod 2013/14 gan gostio bron £2 filiwn i glirio ar eu hôl²⁵. Roedd y digwyddiadau hyn yn amrywio o ran eu maint o fag bin o sbwriel i ddympio llwythi o wastraff ar raddfa fawr o gefn lori.
- 3.21** Mae gwaredu gwastraff mewn ffordd anghyfreithlon yn codi amrywiaeth o bryderon amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau ac o ran iechyd y cyhoedd. Mae hefyd yn rhoi busnesau gwastraff cyfreithlon o dan anfantais oherwydd bydd gweithredwyr anghyfreithlon yn osgoi costau gwaredu ac yn codi prisiau is na'r rheini sy'n cadw'r gyfraith. Mae hefyd yn golygu bod llai o arian ar gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus.
- 3.22** Bydd Treth Dirlenwi yr Alban²⁶ yn diffinio safle tirlenwi'n ehangach nag y mae deddfwriaeth y Deyrnas Unedig, gan estyn cwmphas y dreth y tu hwnt i waredu mewn safle trwyddedig (h.y. safle sydd â'r trwyddedau neu'r awdurdod gofynnol) i gynnwys gwaredu hefyd ar unrhyw dir lle y dylid bod wedi cael caniatâd ond lle nad yw hynny wedi digwydd. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i unrhyw sy'n cael ei ddal yn gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon (ac/neu unrhyw un sy'n gwybod am y gwaredu hwnnw ac yn caniatáu iddo ddigwydd) dalu'r dreth am ei waredu yn y fan honno ac unwaith eto pan gaiff y gwastraff ei symud i safle tirlenwi trwyddedig. Mae Llywodraeth yr Alban wedi estyn y diffiniad o safle tirlenwi gan fwriadu iddo fod yn rhwystr ariannol ychwanegol rhag cyflawni troseddau amgylcheddol fel hyn gan aildafoli'r risg fel bod canlyniadau cael eich dal yn gwrthbwysu'r elw posibl.
- 3.23** Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried cyflwyno estyniad tebyg i'r diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmphas y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Gallai hyn fod yn ffordd arall o ategu Strategaeth

²⁵ Data tipio anghyfreithlon - Gwybodaeth reoli y bydd awdurdodau lleol yn ei rhoi i Asiantaeth yr Amgylchedd yw hon.

²⁶ aa 12 (3) ac 16(3) o Ddeddf Treth Dirlwni (yr Alban) 2014

Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru²⁷. Serch hynny, bydd angen mabwysiadu estyniad tebyg o'r diffiniad o safleoedd tirlenwi yn ofalus er mwyn sicrhau i) cyn lleied o effeithiau negyddol â phosibl yn sgil gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon a ii) sicrhau trefniadau gorfodi cost effeithiol, gan gynnwys trefn weinyddu syml a'r costau gweithredu.

Cwestiwn 16: Beth fyddai goblygiadau ac ystyriaethau ymarferol estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmplas y dreth?

iii) Cosbau Troseddol a Sifil

3.24 Roedd y Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli trethi datganoledig yn esbonio, wrth ddatblygu fframwaith cosbi, y bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried i ba raddau y defnyddir dull cyson ar gyfer trethi sydd wedi'u datganoli yn eu crynswth ac ymhle y gallai fod yn briodol dilyn dull penodol wrth ymdrin â threthi unigol h.y. y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

3.25 Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus a ddylid cyflwyno cosbau sifil a chreu troseddau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Bydd yn bwysig ystyried sut y gellid tafoli'r risg er mwyn i'r tebygolrwydd o gael eich dal a chanlyniadau hynny wrthbwysu'r elw posibl. Er mwyn cyflawni hyn, bydd yn bwysig i'r gosb fod yn gymesur â'r trosedd.

3.26 Mae trefniadau'r Dreth Dirlenwi bresennol yn cynnwys amrywiaeth o droseddau (a chosbau cyfatebol) a chosbau sifil. Mae'r cosbau sifil yn cynnwys methu â gwneud y canlynol:

- cofrestru neu ddadgofrestru
- hysbysu nad oes yn rhaid ichi gofrestru rhagor
- hysbysu Cyllid a Thollau EM am reolydd safle tirlenwi
- cadw cofnodion
- darparu gwybodaeth a chofnodion
- cydymffurfio a'r rheoliadau o dan Ran III o Ddeddf Cyllid 1996
- hysbysu am danasesu gan Gyllid a Thollau EM neu am wallau yn nogfennau trethdalwr o dan rai amgylchiadau

3.27 Mae troseddau'n cynnwys gwybod eich bod yn efadu talu treth mewn ffordd dwyllodrus, yn darparu gwybodaeth gau ac yn llofnodi contract tirlenwi a chithau â rheswm dros gredu bod rhywun yn osgoi talu treth ar y gwarediad dan sylw. Pan

²⁷Gellir darllen Strategaeth Tipio Anghyfreithlon Llywodraeth Cymru yn:
<http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epg/cleanneighbour/flytipping/?lang=cy>

fydd rhywun wedi'i gael yn euog o drosedd troseddol a nodir yn Rhan IV o Atodlen 5 o Ddeddf Cyllid 1996, mae'r cosbau a allai ddeillio o'r euogfarn honno wedi'u rhestru yno hefyd ac maent yn cynnwys cosb ariannol a/neu garchar.

- 3.28** Yn 2014, cyhoeddodd y Cyngor Dedfrydu ganllawiau newydd i ynadon am ddedfrydu ar gyfer troseddau amgylcheddol. Un peth pwysig yw bod y canllawiau hyn yn dweud na ddylai fod yn rhatach i rywun droseddu nag iddo ddilyn y camau priodol. Dylai ynadon sicrhau bod y cyfuniad o orchmynion ariannol a orfodir (iawndal, atafaelu os yw hynny'n briodol a dirwyo) yn dileu unrhyw fudd economaidd sy'n deillio o droseddu.
- 3.29** Bydd troseddau amgylcheddol yn aml yn cynnwys elfen o efadu'r Dreth Dirlenwi. Felly, bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru, y Rheoleiddwyr, yr Heddlu a chyrff gorfodi eraill i gydweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon ym maes gwastraff. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio gweithio gyda'r Cyngor Dedfrydu i sicrhau bod dedfrydu priodol yn rhoi sylw i unrhyw dreth dirlenwi y bydd rhywun yn efadu ei thalu.

Cwestiwn 17: A oes unrhyw anawsterau ynghlwm wrth y drefn gosbi bresennol, ac os oes, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?

iv) Gweithgarwch ym maes Cydymffurfio

- 3.30** Mae Adroddiaid Eunomia am droseddau gwastraff yn dweud: "Whatever the level of penalties...they will not act as a deterrent unless offenders believe it is likely that they will be caught and prosecuted."²⁸
- 3.31** Yn ôl rhanddeiliaid, yn ystod y 5 - 10 mlynedd diwethaf, mae Cyllid a Thollau EM wedi cynnal llai o archwiliadau ar safleoedd gan roi rhagor o bwyslais ar drefniadau wrth ddesg i ganfod ac atal achosion lle bydd pobl yn efadu talu'r Dreth Dirlenwi. Rydym yn cael ar ddeall mai'r rheswm dros hyn, yn rhannol o leiaf, yw bod y gyllideb o dan bwysau a bod blaenoriaethau gweithredol eraill (a chofio mai treth fach yn y Deyrnas Unedig yw'r Dreth Dirlenwi).
- 3.32** Mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthym y byddent yn hoffi gweld 'rhagor o waith yn y maes' yng Nghymru er mwyn sicrhau trefn orfodi fwy effeithiol. Mae momentwm cynyddol o blaid y farn hon ac fe roddodd y Canghellor £5m o arian ychwanegol i Asiantaeth yr Amgylchedd yn ddiweddar (arian a fyddai fel arall wedi mynd at y Gronfa Gymunedol Tirlenwi) er mwyn sicrhau trefn gydymffurfio a gorfodi effeithiol

²⁸ *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret (2014)* - Eunomia Research and Consulting a gomisiynwyd ar ran Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol.

ym maes cyfraith gwastraff, yn enwedig camgategoreiddio gwastraff, safleoedd gwastraff anghyfreithlon ac allforion anghyfreithlon.

Cwestiwn 18: A oes angen rhagor o weithgarwch gorfodi yn y maes, yn hytrach nag wrth ddesg? Os oes, esboniwrch eich barn a rhowch dystiolaeth/esboniwrch y manteision lle bo modd.

Sicrhau bod efadu talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl

3.33 Bydd yn bwysig cryfhau ymwybyddiaeth o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er mwyn gwella dealltwriaeth a chydymffurfiaeth. Mae angen rhannu gwybodaeth a chuddwybodaeth yn effeithiol hefyd rhwng Awdurdod Cyllid Cymru, y Rheoleiddwyr, yr Heddlu a chyrff gorfodi eraill; mae hyn yn cynnwys mynd ar drywydd unigolion sy'n cyflawni troseddau gwastraff a'u herlyn er mwyn rhwystro digwyddiadau eraill. Fel rhan o hyn, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sefydlu mecanweithiau chwythu chwiban cadarn.

Cwestiwn 19: A oes unrhyw gamau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i ddefnyddio'i phwerau trethu newydd i wella'r cydymffurfio a'r gorfodi ac i sicrhau bod efadu talu'r Dreth Dirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl? Os oes, disgrifiwrch y camau posibl hynny.

Mynd i'r afael ag Osgoi Talu'r Dreth

3.34 Er ei bod yn cael ei chydabod yn gyffredinol bod efadu'r Dreth Dirlenwi'n fater pwysig (ac mae'r cynigion a bennwyd yn gynharach yn y Bennod hon yn ceisio sicrhau cyn lleied o gyfleoedd â phosibl i hyn ddigwydd) byddai'n dda gan Lywodraeth Cymru hefyd gael dealltwriaeth ymarferol o'r math o osgoi a allai ddigwydd yng nghyd-destun y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac i ba raddau y byddai'n digwydd.

3.35 Mae Cyllid a Thollau EM yn esbonio osgoi fel hyn: *Nid yw osgoi talu trethu....yn wahanol i efadu, yn anghyfreithlon ynddo'i hun ond mae'n golygu defnyddio'r gyfraith drethu i sicrhau mantais dreth nad oedd erioed yn fwiad gan y Senedd. Mae'n aml yn cynnwys trafodion dyfeisiol, artiffisial nad oes fawr neu ddim pwrpas iddynt ar wahân i leihau'r dreth sy'n daladwy.*²⁹

²⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/tackling-tax-avoidance--2>

- 3.36** Mae'r sawl sy'n osgoi talu treth yn cael mantais annheg dros y rheini sy'n talu'r swm teg o dreth. Mae hefyd yn golygu bod llai o arian ar gael i dalu am wasanaethau cyhoeddus. Fel y dywed Cyllid a Thollau EM, mae hefyd yn tanseilio ymddiriedaeth yn y system drethu ehangach.
- 3.37** Bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru fod yn gefn i drethdalwyr sy'n talu'r swm treth priodol yn brydlon, ond yn cymryd camau llym yn erbyn y rheini sy'n osgoi, neu'n ceisio osgoi talu treth. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn cyfyngu'r opsiynau sydd ar gael i Awdurdod Cyllid Cymru ddelio ag osgoi talu treth mewn ffordd ymosodol neu fwriadol, a bydd yn ystyried ystod lawn yr arfau gweithredol, polisi a deddfu sydd ar gael i wireddu'r nod hwn.
- 3.38** Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli bod angen i'w disgwyliadau fod yn glir, a bydd yn rhoi cymorth a chanllawiau cynhwysfawr am ystyr ei deddfwriaeth ac am sut y caiff ei rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod trethdalwyr yn gallu gweithredu'n hyderus o fewn y system drethu newydd.
- 3.39** Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru am gasglu a rheoli trethi datganoledig yn cynnwys nifer o gwestiynau am fanteision Rheol Gyffredinol yn erbyn Osgoi neu Gamddefnyddio (GAAR), a'r posibilrwydd y byddai angen camau diogelu a chamau eraill yn gefn i'w rhoi ar waith ac i alluogi hynny ynghyd ag i sicrhau eu bod yn gymesur.
- 3.40** Ar sail yr ymatebion a gafwyd, mae'n fwriad gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno'i rheol osgoi talu trethi ei hun yng Nghymru er mwyn i Awdurdod Cyllid Cymru allu gwrthweithio mantais dreth trefniadau a gweithgareddau osgoi. Defnyddir Rheoli Gwrth-Gamddefnyddio Gyffredinol y Deyrnas Unedig a Rheol Gwrth-Osgoi Gyffredinol yr Alban yn sail ar gyfer hyn. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn edrych ar brofiad a gwybodaeth ehangach wrth ystyried i ba raddau y dylid rhoi'r rheol hon ar waith gyda golwg ar drethi sydd wedi'u datganoli i Gymru. Bydd natur a chwmpas rheol osgoi talu trethi Cymru'n cael eu pennu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a hefyd i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y Dreth Trafodiadau Tir.
- 3.41** Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli nad yw GAAR y Deyrnas Unedig yn berthnasol ar hyn o bryd i'r Dreth Dirlenwi, er bod GAAR yr Alban yn berthnasol i Dreth Dirlenwi'r Alban. Er mwyn llywio ystyriaethau Llywodraeth Cymru ar y mater hwn, byddai'n croesawu sylwadau ynglŷn ag a oes tystiolaeth o osgoi talu'r Dreth Dirlenwi bresennol, gan gadw mewn cof bod osgoi yn rhywbeth sy'n digwydd o fewn cyd-destun y ddeddfwriaeth ond nad yw'n cyd-fynd ag ysbryd y ddeddfwriaeth hon neu'r bwriad sy'n gefn iddi.

Cwestiwn 20: Yn eich barn chi, a oes tystiolaeth o osgoi talu'r Dreth Dirlenwi bresennol a beth yw natur yr osgoi hwn?

Pennod 4: Gweinyddu

CYFLWYNIAD

4.1 Mae'r Bennod hon yn ystyried cynigion i symleiddio a moderneiddio prosesau gweinyddol a sicrhau ei bod yn hawdd cydymffurfio. Yn benodol, mae'n ceisio barn pobl am hyn:

- cysoni'r cyfnod anfonebu â'r flwyddyn ariannol
- goblygiadau ymarferol ei gwneud yn ofyniad defnyddio codau Catalog Gwastraff Ewrop wrth lenwi'r ffurflen dreth
- cyfleoedd i symleiddio a moderneiddio ffeilio ffurflenni treth gan gynnwys gwella'r cymorth electronig ac ar lein
- o dan ba amgylchiadau y mae'n briodol rhoi gostyngiad ar gyfer dyledion drwg
- datrys anghydfodau ynghylch y dreth

Y CEFNDIR

4.2 Mae'r Dreth Dirlenwi'n cael ei thalu gan weithredwyr safleoedd tirlenwi. Ar hyn o bryd mae 28 o safleoedd tirlenwi a 23 o gwmnïau'n eu gweithredu yng Nghymru. Mae nifer fach o weithredwyr sy'n gweithredu yng Nghymru hefyd yn gweithredu mewn rhannau eraill o Brydain Fawr. Ar ôl datganoli'r Dreth Dirlenwi i Gymru, gall fod tair gweinyddiaeth dreth wahanol ar waith ym Mhrydain Fawr y bydd gofyn i'r gweithredwyr gwastraff hyn gydymffurfio â hwy.

4.3 Hefyd, mae polisi gwastraff Llywodraeth Cymru yn debygol o leihau'n sylweddol faint o wastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn effeithio ar y referniw a gynhyrchir drwy'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac mae nifer y safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn debygol o fod yn llai na deg erbyn 2020.

4.4 Felly, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i ddatblygu system weinyddol syml ac effeithlon ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi sy'n gost-effeithiol, yn gymesur â'r dreth a godir ac yn faich ysgafn i weithredwyr safleoedd tirlenwi ei ysgwyddo.

CYNIGION

Y cyfnod anfonebu

4.5 Ar hyn o bryd, bydd gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n talu'r Dreth Dirlenwi bob chwarter. Cyllid a Thollau EM sy'n pennu'r dyddiad talu chwarterol er mwyn ei alluogi i reoli'r llif gwaith. Nid yw o reidrwydd yn cyd-daro â'r flwyddyn ariannol nac ychwaith â'r ffurflenni gwastraff chwarterol y bydd gweithredwyr safleoedd tirlenwi yn eu llenwi i Cyfoeth Naturiol Cymru fel rhan o'u gofynion trwyddedu amgylcheddol.

- 4.6 Un opsiwn y mae Llywodraeth Cymru yn ei ystyried yw cysoni'r cyfnod anfonebu chwarterol â'r flwyddyn ariannol. Byddai hyn hefyd yn golygu ei fod yn cyd-daro â'r trefniadau i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddychwelyd eu ffurflenni gwastraff i

Cyfoeth Naturiol Cymru. Byddai cysoni'r rhain yn helpu gyda'r gweithgarwch cydymffurfio oherwydd byddai modd eu croeswrio â'i gilydd.

Cwestiwn 21: A fydddech chi o blaid cysoni cyfnod dychwelyd y ffurflen dreth â'r Flwyddyn Ariannol? Esboniwch eich rhesymau.

Codau Catalog Gwastraff Ewrop

- 4.7 Cam arall y gellid ei gymryd fyddai ei gwneud yn ofynnol defnyddio codau Catalog Gwastraff Ewrop (EWC) wrth lenwi'r ffurflen dreth. Mae EWC yn dyrannu cod 6 digid i ddynodi pob gwastraff ac er bod dros 600 o godau EWC, mae canllawiau ar gael ers tro ar sut i'w defnyddio. Mae codau'r EWC yn cael eu defnyddio eisoes i gwblhau nodiadau trosglwyddo gwastraff a'r ffurflenni gwastraff chwarterol i Cyfoeth Naturiol Cymru.
- 4.8 Byddai hyn yn sicrhau mwy o gysondeb â rheoliadau trwyddedu amgylcheddol ac yn help eto i sicrhau bod pobl yn cydymffurfio drwy symleiddio proses croeswrio ffurflenni treth a gwastraff. Gallai hefyd wneud pethau'n eglurach i drethdalwyr ac i Awdurdod Cyllid Cymru oherwydd bod codau'r EWC yn cynnig diffiniadau manwl o'r gwahanol fathau o wastraff.
- 4.9 Mae codau'r EWC hefyd yn ei gwneud hi'n ofynnol i gynhyrchwyr gwastraff nodi'n glir beth yw ffynhonnell y gwastraff a'i wahanol elfennau, gan atgyfnerthu egwyddorion rheoli gwastraff yn dda. Petai codau'r EWC yn cael eu defnyddio ar gyfer y dreth, mae'n bosib y byddai rhai gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n wynebu costau untro, megis newid eu meddalwedd/anfonebau.

Cwestiwn 22: Beth fyddai goblygiadau ymarferol ei gwneud yn ofyniad bod codau Catalog Gwastraff Ewrop yn cael eu defnyddio wrth gwblhau'r ffurflen dreth?

Ffeilio ffurflenni treth

- 4.10 Trefn ar bapur yn unig yw'r drefn ffeilio bresennol ar gyfer y Dreth Dirlenwi. Bydd Cyllid a Thollau EM yn anfon y ffurflenni treth hunanasesu bob chwarter ac maent yn cael eu dychwelyd drwy'r post gan weithredwyr y safle. Mae'r ffurflen ar gael ar

lein, ond dim ond ar ffurf sampl ac ni all gweithredwyr ei hargraffu. Fel rheol, telir y dreth drwy siec neu drosglwyddiad banc.

- 4.11** Nodwyd bod nifer y gweithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn debygol o ostwng i lai na 10 erbyn 2020, ac o ostwng eto wrth i wastraff gael ei gyfeirio oddi wrth dirlenwi i'w aildddefnyddio, ei ailgylchu, a'i adfer. Oherwydd hyn, efallai y byddai'n anodd cyfiawnhau symud yn llwyr at blatfform ar-lein ar gyfer y Dreth Dirlenwi ar hyn o bryd oherwydd y gost ac oherwydd maint cymharol y dreth. Nid yw ffeilio a thalu'r Dreth Dirlenwi ar lein yn flaenoriaeth i Gyllid a Thollau EM ar hyn o bryd oherwydd mai treth gymharol fach yw hi. Yn yr Alban, lle ceir tua 58 o safleoedd tirlenwi gan oddeutu 52 o weithredwyr, bydd trethdalwyr yn gallu defnyddio system ar lein neu barhau i ddefnyddio'r dull papur.
- 4.12** Byddai'n help inni ddeall yr archwaeth am gymorth ar lein er mwyn inni gadw golwg ar yr opsiwn hwn yn y tymor canol. Serch hynny, mae mân newidiadau y gallem eu gwneud i symleiddio'r broses cyflwyno ffurflenni treth ac a fyddai'n adlewyrchu dyheadau Cymru Digidol Llywodraeth Cymru³⁰.
- 4.13** Gallai hyn gynnwys newid fformat y ffurflen dreth er mwyn ei gwneud yn bosibl ei chyflwyno ar ffurf electronig (hynny yw, drwy ebost yn hytrach na gorfod ei phostio fel mae'n rhaid ar hyn o bryd), ac annog rhagor o bobl i dalu drwy ddull electronig. Byddai hyn yn creu arbedion effeithlonrwydd i weithredwyr safleoedd tirlenwi ac i Awdurdod Cyllid Cymru oherwydd amser yn cael ei dreulio ac arian yn cael ei wario ar argraffu a phostio bob chwarter. Gallai defnyddio ffurflenni electronig hefyd helpu i osgoi gwallau a gwella'r cydymffurfio.

Cwestiwn 23: Sut y gallai Llywodraeth Cymru symleiddio a moderneiddio ffeilio ffurflenni treth, gan gynnwys gwella'r cymorth electronig ac ar lein?

Gostyngiad ar Ddyledion Drwg

- 4.14** Er mai gweithredwyr safleoedd tirlenwi sy'n talu'r Dreth Dirlenwi, byddant yn 'trosglwyddo' y costau hyn i'r cludwyr gwastraff sy'n ei waredu yn eu safleoedd, a bydd y cludwyr yn eu tro yn trosglwyddo'r gost i gynhyrchwyr y gwastraff. Mae proses gostyngiad ar ddyledion drwg ar waith ar hyn o bryd sy'n caniatáu (o dan rai amodau³¹) i weithredwyr safleoedd tirlenwi hawlio'n ôl y gyfran o'r dreth y maent wedi'i thalu i Gyllid a Thollau EM os bydd eu cwsmer yn mynd yn fethdalwr neu heb dalu ei anfoneb o fewn 12 mis. Gall sawl mis fynd heibio cyn i rywun allu adhawlio'r dreth; yn y cyfamser mae gweithredwyr safleoedd tirlenwi'n ysgwyddo hyn yn risg i'w busnes.

³⁰ <http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/digitalwales/?lang=cy>

³¹ Rhan VI o Reoliadau'r Dreth Dirlenwi 1996 (A 1996/1527) ac LfT 1: A general guide to Landfill Tax

- 4.15** Er mwyn i fusnesau barhau'n hyfyw, mae'n bwysig mabwysiadu arferion busnes da sydd â threfniadau contract ac yswiriant priodol ar waith. Gallai'r ffaith fod gostyngiad am ddyledion drwg ar gael wneud gweithredwyr yn gyndyn o weithredu'r trefniadau hyn ac mae hyn yn peryglu eto'r refeniw treth a ddefnyddir i ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae angen ystyried tegwch a chysondeb hefyd oherwydd nad oes gan sectorau busnes eraill yr hawl i gael gostyngiad ar ddyledion drwg ac mae'n rhaid iddynt hwy ysgwyddo'r ddyled honno.
- 4.16** Mae'r Alban wedi penderfynu cyfyngu'r amgylchiadau lle y caiff gweithredwyr safleoedd tirlenwi hawlio gostyngiad ar ddyledion drwg i'r achosion hynny'n unig lle mae cludwr y gwastraff wedi mynd yn fethdalwr yn y ffyrdd a bennir yn eu deddfwriaeth³².
- 4.17** Byddem yn croesawu eich barn ynglŷn ag a ddylid cynnig gostyngiad ar gyfer dyledion drwg ac os felly, o dan ba amgylchiadau y mae hyn yn briodol.

Cwestiwn 24: A ddylid cynnig gostyngiad ar ddyledion drwg ac os felly, o dan ba amgylchiadau y mae hyn yn briodol?

Datrys Anghydfodau ynghylch y Dreth

- 4.18** Mae'r Papur Gwyn ar Gasglu a Rheoli Trethi Datganoledig³³ yn rhestru cynigion ar gyfer rheoli a datrys unrhyw anghydfodau a all godi rhwng y trethdalwr ac Awdurdod Cyllid Cymru wrth weinyddu trethi. Gallai anghydfodau godi yn sgil gwahanol farn am faterion megis swm y dreth sy'n ddyledus neu amseru talu'r dreth. O dan yr amgylchiadau hyn, mae'n bwysig bod trefniadau ar waith sy'n gallu helpu i ddatrys materion yn deg ac yn gyflym.
- 4.19** Bydd egwyddorion trethu Llywodraeth Cymru yn llywio'r trefniadau apelio yng Nghymru. Yn benodol, bwriedir i'r rhain i fod yn deg, yn syml, yn dryloyw, yn effeithlon ac yn fforddiadwy.
- 4.20** Un o brif amcanion polisi Llywodraeth Cymru fydd ceisio osgoi sefyllfa lle bydd anghydfod yn codi yn y lle cyntaf. Disgwylir i Awdurdod Cyllid Cymru weithio ar sail 'gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf' a meithrin diwylliant o gydweithio â threthdalwyr, gan gyfathrebu'n glir ac yn effeithiol ac esbonio'i benderfyniadau'n briodol. Os bydd anghydfod yn codi, gwneir pob ymdrech i ddatrys pethau'n anffurfiol, mewn ffordd gost-effeithiol ac yn ddi-oed.

³² Gweler paragraff 25 o Reoliadau Tirlenwi yr Alban (Gweinyddu) 2015.

³³ Mae'r ymgynghoriad ynglŷn â'r Papur Gwyn Casglu a Rheoli Trethi Datganoledig a'r dadansoddiad o'r ymatebion ar wefan Llywodraeth Cymru yma:

www.wales.gov.uk/consultations

- 4.21 Fel rhan o hyn, disgwylir i Awdurdod Cyllid Cymru gynnal trafodaethau anffurfiol, ac yn yr un modd â Chyllid a Thollau EM, ddefnyddio dull amgen o ddatrys anghydfod, cyfryngu er enghraifft, pan fydd hynny'n briodol. Gyda golwg ar lawer o benderfyniadau Awdurdod Cyllid Cymru, bydd hawl i ofyn am adolygiad mewnol o'r penderfyniad hwnnw, ac os na lwyddir i ddatrys anghydfod, bydd hawl i apelio i system Haen Gyntaf ac Uwch Dribiwnlys y Weinyddiaeth Cyfiawnder.

Cwestiwn 25: A oes gennych unrhyw sylwadau am sut mae'r darpariaethau adolygiadau mewnol ac apeliadau presennol yn gweithio yng nghyd-destun y Dreth Dirlenwi, gan gynnwys yn benodol y bobl sy'n gymwys i ofyn am adolygiad neu apêl?

Amseru'r taliad pan fydd anghydfod yn codi.

- 4.22 Ar hyn o bryd, ni fydd Cyllid a Thollau EM yn ceisio taliad am y dreth sy'n ddyledus gan drethdalwr yn ystod proses camau cynnar datrys anghydfod. Serch hynny, oni lwyddir i ddatrys yr anghydfod o hyd, bydd gofyn talu'r dreth sy'n ddyledus cyn i rywun allu cyflwyno apêl gerbron y tribiwnlys.
- 4.23 O dan drefniadau presennol y Deyrnas Unedig, gall trethdalwyr sy'n apelio yn erbyn penderfyniad sy'n mynnu taliad o flaen llaw, o dan rai amgylchiadau, wneud cais am ohirio talu'r dreth nes cwblhau'r apêl. Yn achos y Dreth Dirlenwi, byddai angen cyflwyno cais (i Gyllid a Thollau EM neu petai hwnnw'n methu i'r tribiwnlys apêl) yn dangos y byddai'r gofyniad i dalu'r swm a bennwyd yn achosi caledi i'r apelydd. Lle bydd apêl wedi'i chlywed ond lle nad oes taliad wedi'i wneud o flaen llaw ac mai canlyniad yr apêl yw bod y swm yn ddyledus, bydd angen talu'r swm ynghyd â llog.
- 4.24 Mae Llywodraeth yr Alban wedi cyflwyno ffordd fwy llym o sicrhau taliadau. Mae Deddf Refeniw'r Alban a Phwerau Trethu 2014 yn cynnwys egwyddor gyffredinol i sicrhau taliad yn gyntaf, ac felly, bydd y dreth yn dal yn ddyledus ac yn daladwy tra'n disgwyl adolygiad neu apêl.³⁴ Mae gan Lywodraeth yr Alban y pŵer i ddarparu (drwy is-ddeddfwriaeth) ar gyfer amgylchiadau lle y gellid gohirio taliad nes y bydd adolygiad neu apêl wedi dod i ben ond nid yw'n bwriadu rhoi'r pŵer hwn ar waith ar hyn o bryd yng nghyswllt Treth Dirlenwi'r Alban. Barn Llywodraeth yr Alban yw y bydd gweithredwr safle tirlenwi sydd i fod i dalu Treth Dirlenwi'r Alban gan amlaf eisoes wedi casglu'r dreth sy'n ddyledus gan y sawl sy'n gwaredu'r gwastraff yn y safle dan sylw.
- 4.25 Roedd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru am gasglu a rheoli trethi datganoledig yn archwilio o dan ba amodau y gellid neu dylid gohirio'r taliad nes clywed apêl. Cafwyd un ar bymtheg o atebion i'r cwestiwn hwn. O blith y rhain, roedd pedwar

³⁴ a. 245 o Ddeddf Refeniw'r Alban a Phwerau Trethu 2014.

ar ddeg yn pwysleisio bod angen sicrhau y dylid gwneud darpariaethau ar gyfer amgylchiadau arbennig o heriol. Dim ond dau atebydd a oedd yn meddwl y dylai'r rheolau fod yn fwy llym na'r rheini y mae Cyllid a Thollau EM yn eu rhoi ar waith ar hyn o bryd.

- 4.26 Ar sail yr ymatebion hyn, mae Llywodraeth Cymru yn glir y dylai'r egwyddor talu'n gyntaf fod yn un o brif golofnau ei dull o gasglu a rheoli trethi. Serch hynny, byddai'n dda gennym weld a oes cyfle i symleiddio'r broses bresennol a'i gwneud yn fwy eglur gan ystyried o dan ba amgylchiadau y gallem ganiatáu i rywun ohirio'r taliad, yn benodol er mwyn sicrhau tegwch, mynediad at gyfiawnder, ac mewn achosion o galedi. Bydd natur a chwmpas yr egwyddor talu'n gyntaf yn cael eu pennu yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghori hwn.

Cwestiwn 26: Yn eich barn chi, a oes amgylchiadau eithriadol lle y dylai trethdalwyr allu gohirio talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi nes bod eu hapêl wedi dod i ben?

Pennod 5: Lles y Gymuned

CYFLWYNIAD

5.1 Wrth ddatblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, mae'n bwysig ystyried sut mae safleoedd tirlenwi ac efadu talu'r Dreth Dirlenwi bresennol yn effeithio ar gymunedau. Bydd y Bennod hon yn trafod:

- a ddylid parhau i ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles y gymuned
- y gweithgareddau arfaethedig a allai gael arian
- yr opsiynau gweinyddol er mwyn sicrhau bod y swm mwyaf posibl yn cyrraedd y cynlluniau

Y CEFNDIR

5.2 Mae Cyfarwydddeb Fframwaith Gwastraff yr Undeb Ewropeaidd yn sefydlu'r egwyddor bod gwastraff yn cael ei drin mewn ffordd nad yw'n niweidio'r amgylchedd na iechyd pobl. Mae hefyd yn ceisio sicrhau bod gwastraff yn cael ei drin yn unol â'r hierarchaeth gwastraff sy'n ceisio cyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi a defnyddio dulliau rheoli gwastraff sy'n fwy amgylcheddol gynaliadwy. Mae cymunedau sy'n byw'n agos at safleoedd tirlenwi'n gallu dioddef diffyg amwynder oherwydd hynny ac fe all hyn gynnwys mwy o draffig a sŵn.

5.3 Cynllun credyd dreth yw'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi sy'n 'gwneud iawn' am rywfaif o'r diffyg amwynder yn sgil byw wrth ymyl safle tirlenwi. Pwrpas y gronfa hon yw cymell gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gefnogi prosiectau lleol sydd o fudd i'r cyhoedd yn gyffredinol, i fioamrywiaeth neu i'r amgylchedd. Drwy wneud hynny, mae'r Gronfa'n rhoi cyfle i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddangos eu Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol.

5.4 Caiff gweithredwyr safleoedd tirlenwi gyfrannu cyfran o'u rhwymedigaeth treth yn wirfoddol (hyd at 5.1%³⁵) i brosiectau cymeradwy a hawlio credyd o 90% ar eu cyfraniad. Caiff gweithredwr y safle tirlenwi ddewis ysgwyddo'r 10% sy'n weddill, neu er mwyn i'r cyfraniadau fod yn niwtral iddynt o ran cost, cânt ofyn i barti annibynnol dalu'r swm sy'n weddill.

5.5 Mae'n bwysig nodi y bydd cyfraniadau gweithredwyr safleoedd tirlenwi at y Gronfa'n arwain at ostyngiad cyfatebol yn nerbyniadau'r Dreth Dirlenwi; felly bydd llai o refeniw treth ar gael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

³⁵Y Trysorlys sy'n pennu'r ffigur hwn ac fe all newid bob blwyddyn.

Gweinyddu

5.6 Cyllid a Thollau EM sy'n llywodraethu'r Gronfa ac mae'n cael ei rheoleiddio gan Entrust ar ei ran.³⁶ Gan mai cronfa breifat yw hon, mae prosiectau cymeradwy'n gymwys i wneud cais am arian cyfatebol gan amrywiaeth o ffynonellau cyhoeddus ac Ewropeaidd.

5.7 Rhaid i brosiectau sy'n ceisio cymorth drwy'r Gronfa fod o fewn 10 milltir i safle tirlenwi a rhaid iddynt gydymffurfio ag un o'r chwech amcan a ganlyn:


- **Amcan A:** Adfer tir nad oes modd ei ddefnyddio rhagor oherwydd bod gweithgarwch a arferai ddigwydd yno wedi dod i ben.
- **Amcan B:** Lleihau, atal neu liniaru effeithiau llygredd sydd wedi digwydd neu a allai ddigwydd, yn sgil gweithgarwch sydd bellach wedi dod i ben.
- **Amcan D:** Darparu, cynnal neu wella parc cyhoeddus neu amwynder cyhoeddus arall.
- **Amcan DA:** Gwarchod rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle mae'n digwydd yn naturiol.
- **Amcan E:** Atgyweirio, cynnal neu adfer man addoli neu le o bwys archeolegol.
- **Amcan F:** Darparu gwasanaethau ariannol, gweinyddol neu debyg gan un sefydliad sydd wedi cofrestru ag Entrust i un arall.

5.8 Bydd prosiectau'n cael arian mewn dwy ffordd:

- a) yn uniongyrchol gan weithredwr safle tirlenwi - drwy wneud hyn, rhaid i'r prosiect gofrestru ei hun yn Gorff Amgylcheddol drwy reolydd y gronfa, Entrust; neu
- b) drwy Gorff Dosbarthu Amgylcheddol - sefydliad sy'n dosbarthu arian i brosiectau ar ran gweithredwr safle tirlenwi.

Mae cyfanswm o amgylch 191 o Gyrff Amgylcheddol a Chyrff Dosbarthu Amgylcheddol wedi'u cofrestru yng Nghymru a tua 50 ohonynt yn weithredol ar hyn o bryd.

³⁶ <http://www.entrust.org.uk>

Ffigur 1: Proses Dosbarthu Bresennol y Gronfa

5.9 Nid yw Entrust yn dal dim o'r arian oherwydd bydd hwnnw'n cael ei ddosbarthu'n uniongyrchol i brosiectau drwy Gyrrff Amgylcheddol a Chyrff Dosbarthu Amgylcheddol. Serch hynny, bydd yn cael ffi a chyfran o'r gronfa i dalu ei gostau gweinyddu drwy:

- a) ffi ymgeisio o £100 a delir gan Gyrrff Amgylcheddol pan fyddant yn cofrestru;
- b) ardoll o 2.17%³⁷ ar bob cyfraniad a gaiff Corff Amgylcheddol a Chorrff Dosbarthu Amgylcheddol gan weithredwr safle tirlenwi.

Heriau gweinyddol

5.10 Ar hyn o bryd mae Cyllid a Thollau EM yn adolygu'r Gronfa gyda'r nod o wella llif yr arian i brosiectau³⁸. Mae hyn oherwydd bod y ffigurau'n dangos bod y Cyrff

³⁷ Cyllid a Thollau EM a fydd yn pennu'r ardoll hon bob blwyddyn, a'r ganran a bennwyd ar gyfer 2014/2015 yw 2.17%.

Amgylcheddol a'r Cyrff Dosbarthu Amgylcheddol wedi cronni symiau mawr o arian sydd heb eu gwario (£140 miliwn). Mae hyn yn destun pryder am nad yw'r arian yn cyrraedd cymunedau mor gyflym ag y dylai.

- 5.11** Mae rhai'n poeni hefyd am gostau gweinyddu'r Gronfa. Mae Entrust³⁹ yn dweud na ddylai costau gweinyddu'r Cyrff Amgylcheddol a'r Cyrff Dosbarthu Amgylcheddol fod yn uwch na 10%. Serch hynny, mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod y costau hyn mewn gwirionedd yn nes at 11.4%/ Fel y dywedwyd uchod, mae Entrust yn cael ei ariannu hefyd drwy godi ardoll o 2.17% ar y gronfa.
- 5.12** Mewn gwirionedd, defnyddir dros 13% o'r Gronfa i'w gweinyddu, felly ar gyfer pob £100 a gyfrenir ati, bydd prosiect yn cael tua £86.

Y Gronfa Gymunedol Tirlenwi yng Nghymru.

- 5.13** Ar lefel y Deyrnas Unedig, mae dros 52,000 o brosiectau wedi'u cymeradwyo ers sefydlu'r Gronfa yn 1996. O blith y rhain, mae bron 33,000 wedi'u cwblhau a bron 5,500 yn dal i fynd rhagddynt.
- 5.14** Yng Nghymru, cymeradwywyd, 1,532 o brosiectau ers sefydlu'r Gronfa, 3% o gyfanswm y Deyrnas Unedig. Mae 206 o brosiectau ar y gweill ar hyn o bryd. Yng Nghymru ac yn Lloegr, mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau a gymeradwyir yn dod o dan Amcan D, DA ac E. (gweler y diffiniadau ym mharagraff 5.7)
- 5.15** Mae Cymru'n gwneud yn dda o'r Gronfa ac fe gafodd ryw £4m yn 2013-14. Mae rhai o'r prosiectau sydd wedi cael arian yng Nghymru ers sefydlu'r Gronfa wedi'u rhestru yn Nhabl 3.

Tabl 3: Enghreifftiau o Brosiectau sydd wedi cael arian gan y Gronfa yng Nghymru

Enw'r Prosiect	Disgrifiad o'r Prosiect ⁴⁰	Lleoliad	Amc	Arian y Gronfa Gymunedol £
Adfywio Cymuned drwy wastraff	Adfer tir halogedig wrth ymyl adeilad cymunedol Ar ôl y gwaith adfer, defnyddiwyd y tir i ymestyn adeilad i greu ased ym mherchnogaeth y gymuned a oedd yn darparu gwasanaethau	Rhondda Cynon Taf	A	43,522

³⁸ <https://www.gov.uk/government/news/government-considers-options-to-improve-the-landfill-communities-fund>

³⁹ <http://www.entrust.org.uk/>

⁴⁰ Mae rhestr lawn o'r Prosiectau a disgrifiadau ohonynt i'w gweld ar wefan Entrust: <http://www.entrust.org.uk/projects>

	ailddefnyddio ac ailgylchu, gwasanaethau trechu tlodi, gwirfoddoli a dysgu seiliedig ar waith, yn ogystal â gwaith cyflogedig ac adfywio cymunedol.			
Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Parc Hailey	Adnewyddwyd Canolfan Gweithgareddau Awyr Agored Hailey Park i gynnwys maes chwarae ac offer ffitrwydd newydd sy'n amgylchedd - gyfeillgar ac yn gwella'r amgylchedd cymdeithasol ac adeiledig . Nod gwella'r amwynder yw helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol	Gogledd Llandaf	D	40,867
Clwb Bocsio Aberman	Adnewyddwyd hen adeilad yn llwyr, y tu mewn a'r tu allan, gan ychwanegu cyntedd, gosod cyflenwad trydan, cawodydd, system wresogi, ffenestri, toiledau a chylch bocsio newydd er mwyn i'r gymuned allu defnyddio'r lle eto.	Rhondda Cynon Taf	D	90,099
Tirluniau Byw Alun a Chwiler	Bydd y prosiect yn creu, yn adfer ac yn gwella Cynefinoedd sy'n Flaenoriaeth ac sy'n gysylltiedig â rhan uchaf afon Alun ac afon Chwiler, gan ymgysylltu â chymunedau lleol.	Sir Ddinbych	DA	277,807
Apêl Coed Dolforwyn (ar y gweill)	Prynu Coed Dolforwyn a pharhau i wella bioamrywiaeth y safle gan ei gadw ar agor ac yn hygyrch i bobl leol.	Powys	DA	150,000
Eglwys Plwyf Boderwyn (ar y gweill)	Ei gwneud yn bosibl i'r Eglwys barhau drwy atgyweirio'r to. Adnewyddwyd distiau'r to ac aliosod y llechi.	Ynys Môn	E	10,000
Goleulong	Ailwampwyd ardal gegin yr Oleulong er mwyn gwella'r profiad i ymwelwyr.	Bae Caerdydd	E	27,093

CYNIGION

- 5.16** Fel yr esboniwyd ym Mhennod 1, yn sgil polisi gwastraff Llywodraeth Cymru bydd llai o lawer o wastraff yn cael ei anfon i safleoedd tirlenwi yn y blynyddoedd a ddaw, gan arwain at lai o safleoedd tirlenwi. Yn ei hanfod, bydd hyn yn effeithio ar y refeniw a gynhyrchir drwy'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac felly ar faint o arian a fydd ar gael i gefnogi cynlluniau.
- 5.17** Ac ystyried yr uchod, hoffem glywed eich barn am hyn. A ddylid parhau i ddyrannu cyfran o dderbyniadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er budd cymunedau, ynteu a ddylai refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gyd fynd i gyllideb Llywodraeth Cymru i'w ddyrannu'n unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a rhwng gwasanaethau cyhoeddus.

Cwestiwn 27: A ddylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau?

Gweithgareddau a allai gael arian

- 5.18** Mae nifer o feysydd a allai elwa o'r math hwn o arian pe cytunid y dylid defnyddio cyfran o'r dreth er budd cymunedau. Byddem yn falch o glywed eich barn am yr opsiynau a ganlyn:

Cryfhau'r trefniadau cydymffurfio a gorfodi a sicrhau bod troseddau gwastraff yn cael cyn lleied o effaith â phosibl

- 5.19** Ers sefydlu'r Gronfa ochr yn ochr â'r dreth yn 1996, mae wedi chwarae rhan bwysig yn ariannu prosiectau yng Nghymru i wneud iawn am rywfaint o'r diffyg amwynder sy'n codi yn sgil byw wrth ymyl safle tirlenwi. Serch hynny, oherwydd bod llai o wastraff yn mynd i safleoedd tirlenwi a nifer y safleoedd tirlenwi'n gostwng (llai na 10 erbyn 2020) mae'n debygol y bydd llai o amharu ar gymunedau yng nghyffiniau safleoedd tirlenwi.
- 5.20** Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod bod y Dreth Dirlenwi'n dylanwasdu'n ehangach ar gymunedau o ran diffyg amwynder. Mae lleiafrif bach a fydd yn ceisio osgoi talu'r Dreth Dirlenwi ac a fydd yn torri'r gyfraith wrth drin gwastraff. Mae gwaredu gwastraff mewn ffordd anghyfreithlon yn codi amrywiaeth o bryderon amgylcheddol a chymdeithasol i gymunedau ac o ran iechyd y cyhoedd. Mae gwaith ymchwil yn dangos hefyd mai ar ardaloedd di-fraint y mae hyn yn effeithio fwyaf.⁴¹

⁴¹ Fly-tipping: causes, inventives and Solutions. (2006) – <http://www.ucl.ac.uk/jdi>

- 5.21 Ym mhennod 3, disgrifir agwedd Llywodraeth Cymru at sefydlu fframwaith cydymffurfio a gorfodi effeithiol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Fel y nodwyd ym Mhennod 3, ailgyfeiriwyd £5m o'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi i Asiantaeth yr Amgylchedd y llynedd er mwyn sicrhau trefniadau cydymffurfio a gorfodi effeithiol ym maes cyfraith gwastraff yn Lloegr,
- 5.22 Drwy fuddsoddi rhagor yn y maes hwn yng Nghymru, gallai fod cyfle i amddiffyn cymunedau yn well rhag gwaredu gwastraff anghyfreithlon. Byddai hyn yn help i wella ansawdd lleoedd ac adfer tir i'w ddefnyddio gan y gymuned. Gallai hefyd gynyddu referniw treth a galluogi ailgyfeirio arian ychwanegol i feysydd eraill a fyddai'n elwa o'r arian hwnnw. Mae ymchwil gan y diwydiant⁴² yn dweud hefyd, am bob £1 sy'n cael ei wario ar orfodi, y cynhyrchir rhwng £3.60 a £5.50.

Cynlluniau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach

- 5.23 Mae'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi bresennol yn darparu ar gyfer gwarchod rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle bydd y rheini'n digwydd yn naturiol. Gallai'r prosiectau hyn fod o fudd ehangach i gymunedau drwy wella ansawdd lleoedd ac adfer tir i'w ddefnyddio gan y gymuned.
- 5.24 Awgrymwyd mai'r Gronfa ar hyn o bryd yw'r brif ffynhonnell arian i brosiectau sy'n canolbwyntio ar yr amcanion hyn a hebddi, y byddai'r prosiectau hyn yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i lefel yr arian sydd ei angen o ffynonellau eraill.
- 5.25 Felly, gellid rhoi arian yn benodol i brosiectau sy'n canolbwyntio ar gynlluniau bioamrywiaeth a gwella'r amgylchedd a allai ganiatáu i'r prosiectau hyn na fyddent fel arall yn cael eu hariannu barhau i fod o fudd i'r amgylchedd ac i gymunedau.

Sicrhau cyn lleied o wastraff â phosibl a'i gyfeirio oddi wrth safleoedd tirlenwi

- 5.26 Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o gynlluniau ac ymyriadau ar waith i leihau gwastraff ac ailgylchu mwy er mwyn creu Cymru Ddiwastraff, er enghraifft, mae cymorth ariannol ychwanegol wedi'i roi i awdurdodau lleol i'w helpu i gynyddu cyfraddau ailgylchu.
- 5.27 Hyd yn hyn, canolbwyntiwyd fwyaf ar leihau gwastraff awdurdodau lleol a'i ailgylchu. Meysydd nad ydynt yn cael cymaint o gymorth i leihau eu gwastraff ac ailgylchu yw'r sectorau diwydiannol, masnachol ac adeiladu. Gellid defnyddio'r arian i sicrhau llai o wastraff a mwy o ailgylchu yn y sectorau hyn ac i ryddhau rhagor o fanteision i'r amgylchedd drwy gyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi.

⁴² *Waste Crime: Tackling Britain's Dirty Secret (2014)* - Eunomia Research and Consulting a gomisiynwyd ar ran Ymddiriedolaeth Addysg y Gymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol.

- 5.28** Mae lle i annog ac addysgu byd diwydiant a'r sector cyhoeddus i weld gwastraff yn adnodd ac i hybu'r sector aildddefnyddio. Gallai cymunedau di-fraint fanteisio hefyd drwy ddefnyddio rhai cynhyrchion a fyddai fel arall wedi'u hanfon i safle tirlenwi a byddai swyddi a chyfleoedd hyfforddi lleol gwerthfawr yn cael eu creu yn y maes aildddefnyddio.
- 5.29** Er mwyn ysgogi twf mewn swyddi, gellid annog busnesau ailgylchu bach i gyflawni'r rôl hon gan ddarparu'r gwasanaethau hyn a sbarduno rhagor o ailgylchu.

Mynd i'r afael â Thlodi ac Amddifadedd mewn cymunedau

- 5.30** Mae tlodi'n gorfodi costau enfawr ar y gymdeithas am ei fod yn golygu llai o gynhyrchiant economaidd, llai o gydlyniant cymdeithasol a mwy o bwysau ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r lefel sgiliau is, afiechyd a diffyg uchelgais a ddaw yn sgil amddifadedd yn rhwystro potensial economi Cymru.
- 5.31** Mae gan Llywodraeth Cymru nifer o gynlluniau eisoes er mwyn trechu tlodi a gwneud cymunedau'n fwy cydnherth drwy helpu pobl i hyfforddi a dysgu sgiliau newydd er mwyn cael gwaith. Rhoddir y cymorth sydd ei angen i deuluoedd â phlant ifanc gan ddarparu addysg dda ar eu cyfer, tai a chymorth lles a sicrhau bod y cymunedau lle maent yn byw yn ddiogel ac yn ffynnu. Mae'r nodau hyn yn adlewyrchu llawer o amcanion y Gronfa.
- 5.32** Bydd safleoedd tirlenwi'n aml yn cael eu lleoli mewn ardaloedd di-fraint, ac yn yr un modd, ar ardaloedd di-fraint y mae gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon yn effeithio fwyaf. Byddai modd gwneud iawn yn rhannol am y diffyg amwynder i ardaloedd di-fraint yn sgil hyn drwy dargedu arian ar eu cyfer. Yna, gallai'r cymunedau hyn feithrin sgiliau cymdeithasol a sgiliau gwaith drwy wirfoddoli, yn ogystal â gwella'u cymuned.

Cwestiwn 28: Os bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau, pa un o'r gweithgareddau a ganlyn a ddylai gael budd o'r arian, a pham?

- Cryfhau'r trefniadau cydymffurfio a gorfodi a sicrhau bod troseddau gwastraff yn cael cyn lleied o effaith â phosibl
- Helpu i leihau gwastraff a throi oddi wrth safleoedd tirlenwi
- Cynlluniau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach
- Trechu tlodi ac amddifadedd mewn cymunedau
- Rhywbeth arall (manylwch)

Gweinyddu

- 5.33** Esbonnir y trefniadau gweinyddu presennol ym mharagraffau 5.6 i 5.12. Fel y dywedwyd, os bydd y dreth hon ynghyd â chynlluniau eraill yn dal i lwyddo i gyfeirio gwastraff oddi wrth safleoedd tirlenwi, yn ei hanfod bydd hyn yn effeithio ar y refeniw a gynhyrchir yn sgil Treth Gwarediadau Tirlenwi ac felly ar y swm o arian a fydd ar gael i gefnogi cynlluniau.
- 5.34** Os cytunir y dylai cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi gael ei dyrannu er budd cymunedau, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sefydlu model gweinyddu syml, cost-effeithiol a sicrhau bod cymaint o arian yn cyrraedd cynlluniau ag y bo modd.
- 5.35** Rhai o'r modelau gweinyddu posibl y mae rhanddeiliaid wedi'u hawgrymu wrthym hyd yn hyn inni eu hystyried eto yw: cadw rhyw ffurf ar y Gronfa Gymunedol Tirlenwi, gan ddosbarthu'r arian drwy gorff sy'n bodoli eisoes neu ddosbarthu'r arian yn uniongyrchol drwy Lywodraeth Cymru. Wrth ystyried y rhain, bydd angen meddwl yn ofalus am gadw rhai o nodweddion presennol y Gronfa, gan gynnwys yr elfen credyd treth, cyfleoedd i weithredwyr safleoedd tirlenwi ddangos eu cyfrifoldeb corfforaethol cymdeithasol ac arian cyfatebol

Cwestiwn 29: A oes gennych chi farn am y model gweinyddu y gellid ei ddefnyddio?

Datblygu Rhagor ar y Model Gweinyddu

- 5.36** Mae'r Bennod hon yn canolbwyntio ar yr egwyddorion sydd ynghlwm wrth a ddylid dal i ddefnyddio cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er budd y gymuned a sut mae gwneud hynny. Bydd eich sylwadau'n help i Lywodraeth Cymru lunio barn am sut i fwrw ymlaen.
- 5.37** Byddwn yn ymgysylltu eto â rhanddeiliaid i ddatblygu'r ffordd ymlaen a ffefrir a'r camau ymarferol. Gallai hyn gynnwys ystyried ffactorau megis ffocws daearyddol yr ariannu (ar hyn o bryd 10 milltir o safle tirlenwi) a chanran yr arian a gyfrennir (ar hyn o bryd 5.1% o atebolrwydd treth gweithredwyr safleoedd tirlenwi).
- 5.38** Hefyd, fe allai fod yn fuddiol ystyried y dull a ddilynir gan Lywodraeth yr Alban gan ei bod hi wedi cyflwyno rhai newidiadau gweinyddol wrth iddi ddatblygu ei Chronfa hithau.
- 5.39** Yn y cyfamser, bydd Llywodraeth Cymru yn dal i fonitro datblygiadau, yn enwedig adolygiad Cyllid a Thollau EM o'r Gronfa Gymunedol bresennol.

ATODIAD 1: CRYNODEB O ORCHYMYN Y DRETH DIRLENWI (DEUNYDD CYMWYS) 2011

Grp	Disgrifiad o'r deunydd	Cyflyrau	Nodiadau
1	Creigiau a phriddoedd	Yn digwydd yn naturiol	Mae Grŵp yn cynnwys y canlynol yn unig i craig ii Clai iii. Tywod iv. Graean v. tywodfaen vi. Calchfaen vii. carreg wedi'i malu viii. clai tsieina ix. Carreg adeiladu x. carreg dymchwel adeiladau neu strwythurau xi. Llechi xii. is-bridd xiii. Llaidd xiv. ysgeintiadau.
2	Deunyddiau ceramig neu goncrit		Mae grŵp 2 yn cynnwys y canlynol yn unig i. gwydr gan gynnwys enamel wedi'i galchlosgi ii. cerameg, gan gynnwys brics a mortar, teils, including bricks, bricks and mortar, tiles, gwaith clai, crochenwaith, tseina a deunyddiau anhydrin iii. concrit, gan gynnwys concrit cyfnerthedig, blociau concrit, brisblociau a blociau aergrit Nid yw grŵp 2 yn cynnwys i. ffeibr gwydr na phlastig wedi'i gyfnerthu â gwydr, a ii. golchiadau safleoedd concrit.
3	Mwynau	Wedi'u prosesu neu wedi'u paratoi	Mae'r grŵp yn cynnwys y canlynol yn unig i. tywodau mowldio, gan gynnwys tywod ffowndri. ii. cleiau, gan gynnwys cleiau mowldio ac amsugnyddion clai (gan gynnwys

			pridd Fuller a bentonit) iii. amsugnyddion mwynol iv. ffibrau mwynol o waith dyn, gan gynnwys ffibrau gwydr v. silica vi. Mica vii. treulyddion mwynol. Nid yw grŵp 3 yn cynnwys i. tywodau mowldio sy'n cynnwys glynwyr organig ii. ffibrau mwynol o waith dyn wedi'u gwneud o blastig wedi'i gyfnerthu â gwydr ac asbestos.
4	Slag ffwrnais		Dim ond y canlynol sydd yn Grŵp 4 i. gwastraffau gwydredig a gweddillion prosesu mwynau'n thermol lle, yn y naill achos neu'r llall, mae'r gweddillion yn ymdoddedig ac yn anhydawdd; a ii. slag o losgi gwastraff.
5	Lludw		Dim ond y canlynol sydd yn Grŵp 5 i. lludw gwaelod a lludw codi a gynhyrchwyd drwy hylosgi pren, gwastraff neu'r ddau ii. lludw gwaelod a lludw codi o hylosgi glo, golosg petroliwm neu'r ddau, wedi'u dyddodi mewn cell sy'n cynnwys cynnyrch yr hylosgi hwnnw'n unig, a iii. lludw gwaelod a lludw codi o hylosgi glo, golosg petroliwm neu'r ddau, wedi'u llosgi gyda biomas a'u dyddodi mewn cell sy'n cynnwys cynnyrch yr hylosgi a'r llosgi hwnnw'n unig. Nid yw Grŵp 5 yn cynnwys lludw codi o losgwyr slwtsh carthion, llosgwyr trefol, llosgwyr clinigol na llosgwyr gwastraff peryglus.
6	Cyfansoddion anorganig actifedd isel		Dim ond y canlynol sydd yn Grŵp 6 i. gwastraffau sy'n cynnwys calsiwm o adweithiau cynhyrchu titaniwm deuocsid ii. calsiwm carbonad iii. magnesiwm carbonad iv. magnesiwm ocsid v. magnesiwm hydrocsid vi. haearn ocsid

			vii. fferrig hydrocsid viii. alwminiwm ocsid ix. alwminiwm hydrocsid x. sirconiw m deuocsid.
7	Calsiwm sylffad	Caiff ei waredu mewn safleoedd tirlenwi ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus mewn cell lle na chaiff gwastraff bioddiraddadwy ei dderbyn	Mae Grŵp 7 yn cynnwys i. calsiwm sylffad ii. gypswm iii. plastrau sy'n cynnwys calsiwm sylffad. Nid yw Grŵp 7 yn cynnwys bwrdd plastr.
8	Calsiwm hydrocsid a heli	Caiff ei ddyddodi yn y ceudod heli.	

**ATODIAD 2: FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD, GAN
GYNNWYS CRYNODEB O'R CWESTIYNAU YMGYNGHORI**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad: Treth Gwarediadau Tirlenwi (Rhif: WG24170)

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Enw:

E-bost:

Rhif Ffôn:

Cyfeiriad:

Tref:

Cod post:

Sefydliad (os ydych yn
ymateb
ar ran

Pennod 2: Cyfraddau'r Dreth a Gwarediadau Trethadwy

Cwestiwn 1: Pa mor bwysig yw hi bod Llywodraeth Cymru yn cadw'n gyson â Llywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth yr Alban o ran cyfraddau'r Dreth Dirlenwi a pham?

Cwestiwn 2: A yw'r cyfraddau treth safonol ac is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.2) wedi'u gosod ar lefel briodol i Gymru? Esboniwch eich ymateb.

Cwestiwn 3: A oes unrhyw werth mewn rhoi'r gallu i Lywodraeth Cymru gyflwyno gwahanol gyfradd o dreth is (sy'n cael eu hesbonio ym mharagraff 2.10 - 2.11) a pham?

Cwestiwn 4: A oes unrhyw newidiadau i restr y deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is (Atodiad 1) y dylid eu hystyried, ac ar ba sail?

Cwestiwn 5: Pa mor ymarferol fyddai cyflwyno trothwy i ddiffinio 'swm bychan' o wastraff anghymwys mewn llwyth o ddeunydd cymwys?

Cwestiwn 6: A fyddech o blaid cyflwyno prawf Colli wrth Danio (LoI) pan gaiff y Dreth Dirlenwi ei datganoli? Esboniwch eich rhesymau.

Cwestiwn 7: A oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol ar gyfer diffinio'r ardal lle y bydd gwaredu trethadwy'n digwydd, ac os felly, sut y gellid datrys y rhain?

Cwestiwn 8: Yn eich barn chi, a oes unrhyw broblemau ynghlwm wrth y trefniadau presennol sy'n rhoi credyd am symud deunydd yn barhaol o safle tirlenwi, ac os felly, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain.

Cwestiwn 9: Beth fyddai goblygiadau ymarferol deddfu ar y sail bod yr holl ddeunydd sy'n mynd i safle tirlenwi (ac eithrio'r deunydd hwnnw sydd wedi'i eithrio'n benodol) yn gymwys i'w drethu?

Cwestiwn 10: Pa weithgareddau y byddech yn disgwyl iddynt gael eu heithrio (peidio â chael eu trethu) a pham?

Cwestiwn 11: A oes gennych unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut y gallem wneud y gweithgareddau trethadwy a'r rhai anhrethadwy ar safle tirlenwi'n fwy clir a beth fyddai goblygiadau ymarferol y rhain?

Cwestiwn 12: A ydych yn meddwl y dylid dileu neu addasu unrhyw rai o'r eithriadau presennol? Esboniwch eich ymateb.

Cwestiwn 13: A oes dadl o blaid dileu neu addasu'r gostyngiad ar gyfer dŵr? Esboniwch eich ymateb.

Cwestiwn 14: A ydych yn meddwl bod lle i gyflwyno eithriadau neu ostyngiadau newydd, ac os felly, beth ddylai'r rhain fod a pham?

Pennod 3: Cydymffurfio a Gorfodi

Cwestiwn 15: Beth fyddai goblygiadau ymarferol rhoi dyletswydd ar weithredwyr safleoedd tirlenwi i ddefnyddio pont bwyso lle bydd un yn gweithio ac ar gael ar y safle tirlenwi, neu yn y cyffiniau agos, ynghyd a chosb gyfatebol am fethu â gwneud hynny?

Cwestiwn 16: Beth fyddai goblygiadau ac ystyriaethau ymarferol estyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwaredu gwastraff yn anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth?

Cwestiwn 17: A oes unrhyw anawsterau ynghlwm wrth y drefn gosbi bresennol, ac os oes, sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain?

Cwestiwn 18: A oes angen rhagor o weithgarwch gorfodi yn y maes, yn hytrach nag wrth ddesg? Os oes, esboniwch eich barn a rhowch dystiolaeth/esboniwch y manteision lle bo modd.

Cwestiwn 19: A oes unrhyw gamau eraill y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i ddefnyddio'i phwerau trethu newydd i wella'r cydymffurfio a'r gorfodi ac i sicrhau bod efadu talu'r Dreth Dirlenwi'n cael cyn lleied o effaith â phosibl? Os oes, disgrifiwch y camau posibl hynny.

Cwestiwn 20: Yn eich barn chi, a oes tystiolaeth o osgoi talu'r Dreth Dirlenwi bresennol a beth yw natur yr osgoi hwn?

Pennod 4: Gweinyddu

Cwestiwn 21: A fydddech chi o blaid cysoni cyfnod dychwelyd y ffurflen dreth â'r Flwyddyn Ariannol? Esboniwch eich rhesymau.

Cwestiwn 22: Beth fyddai goblygiadau ymarferol ei gwneud yn ofyniad bod codau Catalog Gwastraff Ewrop yn cael eu defnyddio wrth gwblhau'r ffurflen dreth?

Cwestiwn 23: Sut y gallai Llywodraeth Cymru symleiddio a moderneiddio ffeilio ffurflenni treth, gan gynnwys gwella'r cymorth electronig ac ar lein?

Cwestiwn 24: A ddylid cynnig gostyngiad ar ddyledion drwg ac os felly, o dan ba amgylchiadau y mae hyn yn briodol?

Cwestiwn 25: A oes gennych unrhyw sylwadau am sut mae'r darpariaethau adolygiadau mewnol ac apeliadau presennol yn gweithio yng nghyd-destun y Dreth Dirlenwi, gan gynnwys yn benodol y bobl sy'n gymwys i ofyn am adolygiad neu apêl?

Cwestiwn 26: Yn eich barn chi, a oes amgylchiadau eithriadol lle y dylai trethdalwyr allu gohirio talu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi nes bod eu hapêl wedi dod i ben?

Pennod 5: Lles y Gymuned

Cwestiwn 27: A ddylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau?

Cwestiwn 28: Os bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau, pa un o'r gweithgareddau a ganlyn a ddylai gael budd o'r arian, a pham?

- Cryfhau'r trefniadau cydymffurfio a gorfodi a sicrhau bod troseddau gwastraff yn cael cyn lleied o effaith â phosibl
- Helpu i leihau gwastraff a throï oddi wrth safleoedd tirlenwi
- Cynlluniau bioamrywiaeth a gwelliannau amgylcheddol ehangach
- Trechu tlodi ac amddifadedd mewn cymunedau
- Rhywbeth arall (manylwch)

Cwestiwn 29: A oes gennych chi farn am y model gweinyddu y gellid ei ddefnyddio?

Cwestiynau Ychwanegol

Cwestiwn 30: A oes gennych unrhyw faterion cysylltiol nad ydyn ni wedi ymdrin yn benodol â nhw neu sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud?

Cwestiwn 31: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynol?

Cyhoeddi'r ymatebion

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Fel arfer mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr awdur yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb, gan fod hyn yn help i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol.

Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

☐

Dychwelyd y ffurflen hon

Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw **19 Mai 2015**

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen hon atom yn y post i'r cyfeiriad hwn:

Yr Is-adran Polisi Trethi a Deddfwriaeth

2^{ail} Lawr - Dwyrain

Llywodraeth Cymru

PACC Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

neu e-bostiwch hi at: FinancialReformMailbox@wales.gsi.gov.uk

Os ydych yn anfon eich ymateb drwy e-bost, rhwch **Treth Gwarediadau Tirlenwi** yn y blwch testun

ATODIAD 3: GEIRFA

Defra	Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
e-doc	Dyletswydd Gofal Electronig
EWC	Catalog Gwastraff Ewrop
GAAR	Rheol gyffredinol ar Atal Cammddefnydd / Rheol Gyfferdinol ar Atal Osgoi
CthEM	Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi
Lol	Colli wrth Danio

ATODIAD 4: ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOLCYCHWYNNOL

Y CEFNDIR

1. Roedd Deddf Cymru 2014 yn dadgymhwyso Treth Dirlenwi Llywodraeth y Deyrnas Unedig yng Nghymru ac yn trosglwyddo pwerau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gyflwyno treth ar warediadau i safleoedd tirlenwi yn ei lle.
2. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi yn lle'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru a bwriedir rhoi'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar waith yng Nghymru o fis Ebrill 2018 ymlaen. Drwy ei datblygu, bydd Cymru yn gallu cynllunio a rhoi ar waith drefniadau sy'n fwy addas ar gyfer amgylchiadau a blaenoriaethau Cymru. Mae'r Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth eisoes wedi pennu'r egwyddorion a fydd yn sail i'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, a bydd y rhain yn sicrhau ei bod:
 - yn deg i'r busnesau a'r unigolion sy'n eu talu;
 - yn syml, gyda rheolau clir, gan geisio sicrhau cyn lleied o gostau cydymffurfio a gweinyddu ag y bo modd ;
 - yn cefnogi twf a swyddi, ac yn ei thro yn help i drechu tlodi; ac
 - yn cynnig sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.
3. Mae Llywodraeth Cymru wrthi'n mynd drwy'r camau cynnar iawn o ddatblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored ac yn eang ei chwmpas ac mae'n ystyried yr ystod lawnaf o opsiynau. Mae'n gofyn am farn pobl am nifer o agweddau ar y dreth gan gynnwys:
 - Cyfraddau'r Dreth a'r Gwarediadau Trethadwy yn enwedig agweddau ar y dreth bresennol a all fod yn ddryslyd neu sy'n creu ansicrwydd
 - Cydymffurfio a Gorfodi, mynd i'r afael â gweithgarwch anghyfreithlon ym maes gwastraff
 - Symleiddio a moderneiddio gweinyddu'r dreth, gan ei galluogi i weithio'n fwy effeithlon, ac ysgafnhau'r baich ar fyd busnes gymaint ag y bo modd.
 - A ddylid dal i ddefnyddio cyfran o dderbyniadau'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er budd y gymuned a sut.
4. Mae'r Dreth Dirlenwi bresennol yn gymhleth ac mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o'r rhyngddibyniaethau rhwng gwahanol agweddau'r dreth. Mae nifer o amrywiadau a fydd yn effeithio ar gostau, buddion (a gwrth-fuddion) a daw'r rhain yn fwy clir yn sgil yr ymgynghoriad hwn.
5. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli ei bod yn bosibl y bydd yn rhaid tafoli'r gwahanol amcanion: sicrhau refeniw treth ar gyfer ariannu cyhoeddus, cefnogi swyddi a thwf, gwella lles y gymuned ac amddiffyn yr amgylchedd. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau cynifer o fuddion ag y bo modd gan osgoi unrhyw effeithiau anghymesur o niweidiol.

6. Bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi'n effeithio ar ystod eang o fuddiannau: mae'r rhanddeiliaid allweddol yn cynnwys: busnesau, rheoleiddwyr, cymunedau a'r Trydydd Sector. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cynnal trafodaethau cychwynnol gydag ystod eang o gyrff ac unigolion sydd â diddordeb yn y maes er mwyn ei helpu i lunio'i gynigion. Byddwn yn parhau i wneud hyn drwy gydol y cyfnod ymgynghori ac mae amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi'u trefnu.

Y CYD-DESTUN

7. Pwrpas cynnal Asesiad o Effaith Rheoleiddiol yw dangos costau a buddion pob cynnig, a'i ddefnyddio'n sylfaen dystiolaeth i ddangos pam y dewiswyd opsiwn polisi penodol.
8. Mae Deddf Cymru 2014 yn trosglwyddo cymhwysedd i'r Cynulliad Cenedlaethol gyda golwg ar drethu gwarediadau gwastraff i safleoedd tirlenwi yng Nghymru. Mae hyn yn golygu y caiff Llywodraeth Cymru benderfynu a ddylid cyflwyno treth yn lle'r un bresennol, ac un opsiwn fyddai gwneud dim.
9. Mae Pennod 1 o'r ymgynghoriad hwn yn cyflwyno'r achos o blaid cyflwyno treth yn lle'r un bresennol. Bwriad Llywodraeth Cymru yw cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi yng Nghymru yn lle'r Dreth Dirlenwi oherwydd byddai peidio â gwneud hynny'n arwain at oblygiadau negyddol sylweddol - goblygiadau ariannol a goblygiadau o ran polisi.
10. Yn ystod y cam cynnar hwn wrth ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i geisio barn pobl am nifer o gynigion gwahanol a ddefnyddir i lywio'i phenderfyniadau polisi'n ddiweddarach.
11. Mae maint y costau a/neu'r buddion y gallai Treth Gwarediadau Tirlenwi eu creu yn dibynnu ar ba opsiwn polisi a ddewisir. Felly, at ddibenion yr ymgynghoriad hwn, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi crynhoi'r goblygiadau posibl cychwynnol i rhanddeiliaid yn Nhabl 4.
12. Byddem yn croesawu eich syniadau ynglŷn ag a ydym wedi nodi'r holl gostau, buddion a gwrth-fuddion. Byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu unrhyw dystiolaeth gefnogol y gallwch ei rhoi i gefnogi neu i herio'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn a'u goblygiadau ar gyfer rhanddeiliaid.
13. Bydd Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei gwblhau cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth a disgwylir i hynny ddigwydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016. Defnyddir yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i lywio'r broses honno. Bydd yn ystyried effaith debygol y dreth ar y cyhoedd yng Nghymru, rhanddeiliaid allweddol ac economi Cymru

Tabl 4: Crynodeb o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol Cychwynnol

Cyfraddau'r Dreth a Gwarediadau Trethadwy	
Prif randdeiliaid (y rhai sy'n ysgwyddo'r costau a'r buddion)	➤ Cynhyrchwyr gwastraff ➤ Cwmnïau rheoli gwastraff ac adnoddau ➤ Awdurdodau lleol ➤ Gweithredwyr safleoedd tirlenwi ➤ Llywodraeth y Deyrnas Unedig/Cyllid a Thollau EM
Opsiynau o ran costau (mwyaf)	➤ Cynyddu neu ostwng cyfraddau'r dreth ➤ Newidiadau i'r rhestr o Ddeunyddiau Cymwys ➤ Newidiadau i'r diffiniad o'r hyn sy'n drethadwy (maes a gweithgarwch) ➤ Cyflwyno prawf Colli wrth Danio ➤ Newidiadau i eithriadau a gostyngiadau
Opsiynau o ran buddion (mwyaf)	➤ Cynyddu neu ostwng cyfraddau'r dreth ➤ Newidiadau i'r rhestr o Ddeunyddiau Cymwys ➤ Newidiadau i'r diffiniad o'r hyn sy'n drethadwy (maes a gweithgarwch) ➤ Cyflwyno prawf Colli wrth Danio ➤ Newidiadau i eithriadau a gostyngiadau
Ffynonellau gwybodaeth am gostau a buddion	➤ Gweithredwyr safleoedd tirlenwi ➤ Cyrff sy'n cynrychioli: ○ Y diwydiant gwastraff ac adnoddau ○ Busnes ○ Prif berchnogion tir ➤ Cyfoeth Naturiol Cymru ➤ Llywodraethau Cenedlaethol a Lleol
Cydymffurfio a Gorfodi	
Prif randdeiliaid (y rhai sy'n ysgwyddo'r costau a'r buddion)	➤ Gweithredwyr safleoedd tirlenwi ➤ Awdurdodau lleol ➤ Cyfoeth Naturiol Cymru ➤ Gwasanaethau Tân ac Achub ➤ Perchnogion tir a chymunedau ➤ Cwmnïau rheoli gwastraff ac adnoddau ➤ Iechyd Cyhoeddus Cymru
Opsiynau o ran costau (mwyaf)	➤ Newidiadau i'r cosbau troseddol a sifil ➤ Cynyddu gweithgarwch cydymffurfio (yn y maes) ➤ Ehangu'r diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwarediadau gwastraff anghyfreithlon o fewn cwmpas y dreth

Opsiynau o ran buddion (mwyaf)	➤ Newidiadau i'r cosbau troseddol a sifil ➤ Cynyddu gweithgarwch cydymffurfio (yn y maes) ➤ Ehangu'r diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys gwarediadau gwastraff anghyfreithlon o fewn cwrmpas y dreth
Ffynonellau gwybodaeth am gostau a buddion	➤ Gweithredwyr safleoedd tirlenwi ➤ Cyrff sy'n cynrychioli: ○ Y diwydiant gwastraff ac adnoddau ○ Busnes ○ Prif berchnogion tir ➤ Cyfoeth Naturiol Cymru ➤ Llywodraethau Cenedlaethol a Lleol
Gweinyddu	
Prif randdeiliaid (y rhai sy'n ysgwyddo'r costau a'r buddion)	➤ Gweithredwyr safleoedd tirlenwi ➤ Awdurdod Cyllid Cymru ➤ Cyfoeth Naturiol Cymru
Opsiynau o ran costau (mwyaf)	➤ Cysoni'r cyfnod anfonebu ➤ Mabwysiadu codau Catalog Gwastraff Ewrop ➤ Ffeilio ar lein ➤ Cadw'r gostyngiad ar gyfer dyledion drwg, rhoi'r gorau iddynt neu eu lleihau ➤ Datrys anghydfodau ynghylch y dreth
Opsiynau o ran buddion (mwyaf)	➤ Cysoni'r cyfnod anfonebu ➤ Mabwysiadu codau Catalog Gwastraff Ewrop ➤ Ffeilio electronig ➤ Datrys anghydfodau ynghylch y dreth
Ffynonellau gwybodaeth am gostau a buddion	➤ Gweithredwyr safleoedd tirlenwi ➤ Ymgynghorwyr amgylcheddol a masnachol ➤ Cyfoeth Naturiol Cymru ➤ Llywodraethau Cenedlaethol a Lleol
Lles y Gymuned	
Prif randdeiliaid (y rhai sy'n ysgwyddo'r costau a'r buddion)	➤ Prif fuddiolwyr megis Cyrff Amgylcheddol a Chyrff Dosbarthu Amgylcheddol, y trydydd sector a sefydliadau'r gymuned ➤ Entrust ➤ Gweithredwyr safleoedd tirlenwi ➤ Awdurdodau lleol

Opsiynau o ran costau (mwyaf)	➤ Atal neu newid y ffocws a/neu drefn weinyddu'r gronfa Sylwer: Mae'r costau'n annhebygol o fod yn fawr o safbwynt arian parod ac ystyried maint tebygol cynllun. Serch hynny, gallai dileu cynllun credyd treth olygu na fyddai rhai mathau o brosiectau'n cael arian o gwbl.
Opsiynau o ran buddion (mwyaf)	➤ Atal neu newid y ffocws a/neu drefn weinyddu'r gronfa Sylwer: Mae'r costau'n annhebygol o fod yn fawr o safbwynt arian parod ac ystyried maint tebygol cynllun. Serch hynny, gallai parhau â chynllun ddod a buddion cymharol fawr i sefydliadau na fyddant yn cael fawr o arian fel arall.
Ffynonellau gwybodaeth am gostau a buddion	➤ Entrust ➤ Prif fuddiolwyr/Cyrff Amgylcheddol a Chyrff Dosbarthu Amgylcheddol ➤ Cyfoeth Naturiol Cymru ➤ Llywodraethau Cenedlaethol a Lleol ➤ Gweithredwyr safleoedd tirlenwi

AESIADAU EFFAITH ERAILL

14. Bydd cyfres o brofion effaith penodol ar y polisi i ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu hystyried yn rhan o'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol llawn. Yn eich ymatebion, byddai Llywodraeth Cymru yn croesawu'n benodol eich barn am effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl (gan gynnwys costau) y cynigion a restrir yn yr ymgynghoriad hwn ar y canlynol:

Busnesau Bach

15. Mae'r Dreth Dirlenwi bresennol yn dreth sy'n cael ei chodi ar fusnesau; mae wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar fusnesau i adolygu eu trefniadau rheoli gwastraff ac i symud tuag at fwy o atal, ailddefnyddio, ailgylchu ac adfer gwastraff.
16. Er mai gweithredwyr safleoedd tirlenwi sy'n talu'r Dreth Dirlenwi, byddant yn 'trosglwyddo' y costau hyn i'r cludwyr gwastraff sy'n ei waredu yn eu safleoedd, a bydd y cludwyr yn eu tro yn trosglwyddo'r gost i gynhyrchwyr y gwastraff.
17. Felly, mae'n bosib y byddai cyflwyno Treth Gwarediadau Tirlenwi yn effeithio ar ystod o fusnesau. Lle bynnag y bo modd, bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio sicrhau cyn lleied o feichiau ar fusnesau â phosibl a bod costau cydymffurfio â'r dreth a'i gweinyddu mor isel â phosibl. Mae Llywodraeth Cymru yn sylweddoli hefyd fod gofyn i fusnesau gael sefydlogrwydd a sicrwydd tymor hir yn sylfaen i'w cynlluniau busnes a'u buddsoddiadau.

Y sector gwirfoddol

18. Mae Treth Dirlenwi bresennol Llywodraeth y Deyrnas Unedig hefyd yn darparu cronfa i gefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol yng nghyffiniau safle tirlenwi. Cynllun credyd treth yw'r Gronfa Gymunedol Tirlenwi sy'n galluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gyfrannu cyfran o'r dreth maent yn atebol i'w thalu at brosiectau cymwys. Cafodd prosiectau yng Nghymru, y rhan fwyaf ohonynt yn cael eu rhedeg gan y sector gwirfoddol, bron £4m o Gronfa Gymunedol Tirlenwi'r Deyrnas Unedig yn 2013-14.
19. Ym Mhennod Pump o'r ymgynghoriad hwn, cyfeirir at yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ynghylch a ddylid defnyddio'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er lles cymunedau a sut. Gallai parhau â chynllun fod o fudd cymharol fawr i fudiadau nad ydynt yn cael llawer o arian o ffynonellau eraill. Yn yr un modd, gallai dileu cynllun olygu na fydd rhai mathau o brosiectau'n cael arian o gwbl.

Cydraddoldeb

20. Mae Deddf Llywodraeth Cymru (adran 108(6) (C) Deddf Llywodraeth Cymru 2006) yn dweud na fydd Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd yn anghydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.
21. Mae'r meysydd yn y Confensiwn sy'n berthnasol i drethu yn cynnwys nifer o Erthyglau sy'n rhestru prif egwyddorion hawliau dynol. Y prif Erthyglau sy'n cael eu hystyried wrth baratoi Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) ar gyfer trethi datganoledig yw:
- Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf sy'n amddiffyn yr hawl i eiddo.
 - Erthygl 6 sy'n gwarantu'r hawl i dreial teg wrth benderfynu ynghylch dyletswyddau sifil ac sy'n rhoi rhagor o hawliau lle bydd rhywun yn cael ei gyhuddo o drosedd.
 - Erthygl 8 sy'n ei gwneud yn ofynnol parchu bywyd preifat a bywyd teulu.
 - Erthygl 14 sy'n gwahardd camwahaniaethu.
22. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y Confensiwn wrth lunio'i chynigion polisi penodol ar gyfer y Dreth Gwarediadau Tirlenwi; fe allai hyn fod yn benodol o berthnasol i'r trefniadau arfaethedig ar gyfer eithriadau a gostyngiadau, cosbau ac apeliadau.
23. Wrth ystyried a oes unrhyw effaith wahaniaethol ar y Rhywiau ac Ailaseinio'r Rhywiau, Crefydd, Cred a Dim Cred, Cyfeiriadedd Rhywiol, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Partneriaethau Sifil a Hil, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu nad oes dim tystiolaeth i ddangos effaith wahaniaethol ar unrhyw un o'r grwpiau hyn sy'n cael eu gwarchod.

Preifatrwydd

24. Rydym wedi ystyried Asesiad Effaith ar Breifatrwydd ac mae'r Uned Hawliau Gwybodaeth wedi cadarnhau nad oes gofyn cynnal Asesiad Effaith llawn ar Breifatrwydd ar hyn o bryd.

Hawliau'r plentyn

25. Ar ôl archwilio'r Erthyglau, mae Llywodraeth Cymru o'r farn, ar hyn o bryd wrth ddatblygu'r polisi, nad oes dim materion i'w nodi yn y ddeddfwriaeth hon, ond bydd hyn yn cael ei ystyried eto wrth i'r polisi ddatblygu.

Gwledig

26. Rydym wedi ystyried Rhestr Prawf-fesur Gwledig yn fuan yn y broses ac wedi cael ei hysbysu nad oes angen asesiad ar hyn o bryd. Cynhelir asesiad arall, gan ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad a datblygiadau polisi yn nes ymlaen.

Y Gymraeg

27. Nid oes dim tystiolaeth i awgrymu bod y Dreth Dirlenwi bresennol yn cael effaith negyddol ar y Gymraeg ac felly ni ddylai cyflwyno treth Gymreig debyg yn ei lle gael effaith negyddol ychwaith. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Awdurdod Cyllid Cymru, fel Adran Anweinidogol o'r Llywodraeth, gydymffurfio'n llawn â Safonau'r Gymraeg⁴³.
28. Ym Mhennod Pump o'r ymgynghoriad hwn, cyfeirir at yr opsiynau sy'n cael eu hystyried ynghylch a ddylid defnyddio'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi er lles cymunedau a sut. Wrth ddatblygu cynigion, ystyrir yr effaith ar y Gymraeg ac ar gymunedau Cymraeg eu hiaith.

Asesu cystadleuaeth

29. Mae dau gam i'r broses Asesu Cystadleuaeth. Y cyntaf yw'r broses hidlo gryno sy'n asesu a oes perygl o effaith niweidiol sylweddol ar gystadleuaeth. Mae'r tabl isod yn crynhoi canlyniadau'r hidlo cychwynnol i fesur yr effaith ar gystadleuaeth. Ailystyriir hyn wrth i'r polisi ddatblygu.
30. Ar hyn o bryd nid oes gofyn symud at ail gam yr asesiad cystadleuaeth.

⁴³<http://www.comisiynyddygydraeg.org/Cymraeg/Cyfraith/mesurygydraeg2011/safonau/Pages/hafansafonau.aspx>

Prawf hidlo ar gyfer cystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb ✓ x
C1 Yn y farchad/y marchnadoedd y mae'r drefn reoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran o'r farchnad.	Nac oes
C2: Yn y farchad/y marchnadoedd y mae'r drefn reoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy nag 20% o gyfran o'r farchnad?	Nac oes
C3 Yn y farchnad/y marchnadoedd y mae'r drefn reoleiddio newydd yn effeithio arni/arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd o leiaf 50% o gyfran o'r farchnad?	Nac oes
C4: A fyddai costau'r rheoleiddio'n effeithio ar rai cwmnïau'n sylweddol fwy nag ar rai eraill	Na fyddent
C5: A ydy'r rheoleiddio'n debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, neu o newid nifer neu faint busnesau/sefydliad?	Nac ydy
C6: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau sefydlu uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoleiddio'n arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr nad oes yn rhaid i gyflenwyr presennol eu hysgwyddo?	Na fyddai
C8: A ydy newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector?	Nac ydy
C9: A fyddai'r rheoleiddio'n cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?	Na fyddai

ADOLYGIAD AR ÔL GWEITHREDU

31. Rhagwelir y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei hadolygu ddwy flynedd ar ôl iddi ddod i rym neu cyn hynny, os bydd angen.

Cwestiwn 31: A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol cychwynol

